# Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR 2025)

# Acronymau a Rhestr Termau

Cyfoeth Naturiol Cymru

**Dyfyniad argymelledig**

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2025. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2025): Acronymau a Rhestr Termau. Ionawr 2026, 96 tudalen, CNC, Caerdydd.

**Hawlfreintiau**

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

## Rhestr o Dablau

- Tabl 1 Acronymau a thalfyriadau a ddefnyddir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ... 2
- Tabl 2 Disgrifiad o'r unedau a ddefnyddir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ... 10
- Tabl 3 Diffiniadau o adnoddau naturiol ac ecosystemau a ddefnyddir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ... 11
- Tabl 4 Geirfa termau a ddefnyddir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ... 15
- Tabl 5 Ysgogwyr newid Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 ... 76
- Tabl 6 Pwysau Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 ... 79
- Tabl 7 Gwasanaethau darparu ... 89
- Tabl 8 Gwasanaethau rheoleiddio a chynnal ... 91
- Tabl 9 Gwasanaethau diwylliannol ... 94

# Tabl 1 Acronymau a thalfyriadau a ddefnyddir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

| Acronym / talfyriad | Terminoleg lawn |
|---|---|
| **ACA** | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| **AD** | Treuliad Anaerobig |
| **ADHD** | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd |
| **AGA** | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| **ANGST** | Safon Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch |
| **AHDB** | Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth |
| **AHNE** | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| **ALC** | Dosbarthiad Tir Amaethyddol |
| **AMPA** | Asid Amino-3-Hydrocsi-5-Methyl-4-Isocsasolepropionig |
| **APHA** | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion |
| **AQMA** | Ardal Rheoli Ansawdd Aer |
| **AQS** | Strategaeth Ansawdd Aer |
| **ASC** | Is-bwyllgor Addasu (y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd) |
| **B[a]P** | Benso(a)pyren |
| **BAME** | Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol |
| **BBC** | Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig |
| **BBS** | Arolwg Adar sy'n Magu |
| **BECCS** | Cnydau Bio-Ynni gyda Dal a Storio Carbon |
| **BEIS** | Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol |
| **BGC** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **BMV** | Gorau a Mwyaf Amlbwrpas |
| **BNF** | Sefydlogiad Nitrogen Biolegol |
| **BoCC** | Adar o Bryder Cadwraethol |
| **BPS** | Cynllun Taliad Sylfaenol |
| **BTO** | Ymddiriedolaeth Adareg Prydain |
| **CAGR** | Cyfradd Twf Cyfansawdd Flynyddol |
| **CAMS** | Strategaethau Rheoli Tynnu Dŵr o Ddalgylchoedd |
| **CAP** | Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| **CAT** | Canolfan y Dechnoleg Amgen |
| **CBA** | Dadansoddiad Cost a Budd |

| Acronym / talfyriad | Terminoleg lawn |
|---|---|
| **CBD** | Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol |
| **CCRA** | Asesiad Risg Newid Hinsawdd |
| **CCU** | Dal a Defnyddio Carbon |
| **CFfC** | Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| **CIP** | Rhaglen Ymchwilio i Gemegau |
| **CIP** | Prosiect Gwella Cyflwr |
| **CLT** | Pren wedi'i Draws-lamineiddio |
| **CNC** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **$CO_2$** | Carbon Deuocsid |
| **CoP** | Cynhadledd y Partïon (gorff gwneud penderfyniadau goruchaf Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd) |
| **COVID-19** | Clefyd Coronafeirws 2019 |
| **CPRE** | Ymgyrch Diogelu Lloegr Wledig |
| **CPRW** | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| **CSCP** | Rhaglen Gallu, Addasrwydd a Hinsawdd |
| **CU** | Y Cenhedloedd Unedig |
| **CuRVe** | Gwerth Cymharol Cyfredol Gwydnwch |
| **CHP** | Gwres a Phŵer Cyfunedig |
| **dBA** | Desibelau â Phwysoliad A |
| **DECCA** | Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd ac Agweddau Eraill Ar Wydnwch Ecosystem |
| **DEFRA** | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| **DIN** | Nitrogen anorganig toddedig |
| **DPSIR** | Ysgogwr Pwysau Cyflwr Effaith Ymateb |
| **DU** | Y Deyrnas Unedig |
| **DWI** | Arolygiaeth Dŵr Yfed |
| **DDT** | Deuclorodeuffenyltricloroethan |
| **EEA** | Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop |
| **EFI** | Dangosyddion Llif Amgylcheddol |
| **EfW** | Ynni o Wastraff |
| **EIA** | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| **EMR** | Diwygio'r Farchnad Trydan |

| Acronym / talfyriad | Terminoleg lawn |
|---|---|
| **EPA** | Deddf Diogelu'r Amgylchedd |
| **EPR** | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol |
| **EQS** | Safonau Ansawdd Amgylcheddol |
| **ERAMMP** | Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig |
| **FAO** | Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth |
| **FAQ** | Cwestiynau Cyffredin |
| **FCD** | Dyddiau Capasiti’r Cae |
| **FCERM** | Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol |
| **FCRN** | Rhwydwaith Ymchwil Hinsawdd Bwyd |
| **FPS** | Arolwg Ymarfer Ffermydd |
| **FSC** | Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd |
| **GB** | Prydain Fawr |
| **GBNNSS** | Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr |
| **GDP** | Cynnyrch Domestig Gros |
| **GES** | Statws Ecolegol Da |
| **GNG** | Gwarchodfa Natur Genedlaethol |
| **GHG** | Nwy Tŷ Gwydr |
| **GI** | Seilwaith Gwyrdd |
| **GMEP** | Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir |
| **GVA** | Gwerth Ychwanegol Gros |
| **GW** | Gigawatt |
| **GwfG** | Gŵydd dalcenwen yr Ynys Las |
| **GWh** | Oriau Gigawatt |
| **GWR** | Ailgylchu Dŵr Llwyd |
| **NGO** | Corff Anllywodraethol |
| **HCC** | Hybu Cig Cymru |
| **HoF** | Llif Annibynnol |
| **HRA** | Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd |
| **HWS** | Cynllun Cynefin Cymru |
| **IAS** | Rhywogaeth Estron Oresgynnol |
| **IBERS** | Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig |
| **ICA** | Ardal Gylfinir Bwysig |

| Acronym / talfyriad | Terminoleg lawn |
|---|---|
| **ICC** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **ICES** | Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr |
| **IEC** | Mynegai Parhad Ecolegol |
| **INNS** | Rhywogaethau Estron Goresgynnol |
| **IPBES** | Llwyfan Gwyddoniaeth-Polisi Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystem |
| **IPCC** | Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd |
| **IUCN** | Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur |
| **JNCC** | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |
| **ktoe** | Cilo tunelli o gyfwerthyddion olew |
| **LBAP** | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol |
| **LCA** | Asesiad Cylch Bywyd |
| **LDP** | Cynllun Datblygu Lleol |
| **LERC** | Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol |
| **LFA** | Ardal Lai Ffafriol |
| **LISS** | Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith |
| **LNP** | Partneriaeth Natur Leol |
| **LNR** | Gwarchodfa Natur Leol |
| **LoTox** | Ocsidiad Tymheredd Isel |
| **LSOA** | Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is |
| **LULUCF** | Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth |
| **MCA** | Dadansoddiad â Meini Prawf Lluosog |
| **MCCIP** | Partneriaeth Effeithiau Newid Hinsawdd ar y Môr |
| **MFTA** | Cytundebau Masnach Rydd Lluosog |
| **MMH** | Mynydd, Gweundir a Rhos |
| **MPA** | Ardal Forol Warchodedig |
| **MRV** | Monitro, Adrodd a Gwirio |
| **MSFD** | Cyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol |
| **MSY** | Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf |
| **MW** | Megawatt |
| **N2K** | Natura 2000 |
| **NBN** | Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol |

| Acronym / talfyriad | Terminoleg lawn |
|---|---|
| **NbS** | Atebion sy'n Seiliedig ar Natur |
| **NCA** | Cyfrifo Cyfalaf Naturiol |
| **NCC** | Pwyllgor Cyfalaf Naturiol |
| **NEA** | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol |
| **NEA y DU neu UKNEA** | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU |
| **NEAI** | Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol |
| **NFI** | Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol |
| **NFM** | Rheoli Llifogydd yn Naturiol |
| **NFU** | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| **NHCP** | Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd |
| **NHS** | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **NIS** | Rhywogaeth Estron |
| **NNSIP** | Porth Gwybodaeth Rhywogaethau Estron |
| **NO** | Ocsid Nitrig |
| **$NO_2$** | Nitrogen Diocsid |
| **$NO_x$** | Ocsidau Nitrogen |
| **NPK** | Nitrogen, Ffosfforws, Potasiwm |
| **NPV** | Gwerth Presennol Net |
| **NRAP** | Cynllun Gweithredu Adfer Natur |
| **NSIS** | Rhestr Pridd Cenedlaethol yr Alban |
| **OECMs** | Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill sy'n Seiliedig ar Ardal |
| **OPM** | Ymdeithiwr y Derw |
| **OSPAR** | Confensiwn ar gyfer Diogelu Amgylchedd Morol Gogledd Ddwyrain yr Iwerydd |
| **OTU** | Uned Dacsonomaidd Weithredol |
| **OWF** | Fferm Wynt ar y Môr |
| **PAAG** | Grŵp Dadansoddi Amaethyddol Proffesiynol |
| **PAH** | Hydrocarbonau Aromatig Amgylchredol |
| **PaNS** | Arolwg Pobl a Natur |
| **PAP** | Cynllun Gweithredu Llwybr |
| **PAS** | Manyleb sydd ar gael i'r Cyhoedd |
| **PAWS** | Planhigfa ar Safleoedd Coetir Hynafol |

| Acronym / talfyriad | Terminoleg lawn |
|---|---|
| **PBC** | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| **PCC** | Defnydd y Pen |
| **PDA** | Cymdeithas Datblygu Potash |
| **PEFC** | Rhaglen ar gyfer Cymeradwyo Ardystiad Coedwigoedd |
| **PES** | Taliad am Wasanaethau Ecosystem |
| **PFAS** | Sylweddau Per- a Polyfflworoalcyl |
| **PM2.5** | Deunydd gronynnol mân llai na 2.5 micron mewn diamedr |
| **POPs** | Llygryddion Organig Parhaus |
| **PPE** | Cyfarpar Diogelu Personol |
| **ProW** | Hawl Tramwy Cyhoeddus |
| **PV** | Ffotofolteg |
| **RAPID** | Cynghrair y Rheoleiddwyr ar gyfer Hyrwyddo Datblygiad Seilwaith |
| **RBMP** | Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd |
| **RCP** | Llwybr Crynhoad Cynrychioladol (fel y'i cyflwynir yn UKCP18) |
| **REN** | Rhwydwaith Ecolegol Cadarn |
| **RIGS** | Safle Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol |
| **RSA** | Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad yr RSA |
| **RSPB** | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| **RWAS** | Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru |
| **RWH** | Cynaeafu Dŵr Glaw |
| **SAP** | Gweithdrefn Asesu Safonol |
| **SCOS** | Pwyllgor Arbennig ar Forloi |
| **SCP** | Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau |
| **SEA** | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| **SEEA** | System Cyfrifyddu Economaidd Amgylcheddol |
| **SEI** | Sefydliad yr Amgylchedd Stockholm |
| **SEP** | Partneriaeth Aber Afon Hafren |
| **SNG** | Glaswelltir Lled-naturiol |
| **SINC** | Safleoedd o Ddiddordeb er Cadwraeth Natur |
| **SLM** | Rheoli Tir yn Gynaliadwy |
| **SMART** | Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig, Amserol |

| Acronym / talfyriad | Terminoleg lawn |
|---|---|
| **SMNR** | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| **SMP** | Cynllun Rheoli Traethlin |
| **SOC** | Carbon Organig Pridd |
| **SoDdGA** | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| **SOM** | Deunydd Organig Pridd |
| **SoNaRR** | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| **$SO_x$** | Ocsidau Sylffwr |
| **SQI** | Mynegai Ansawdd Saprosylig |
| **SRF** | Coedwigaeth Cylchdro Byr |
| **SSM** | Rheoli Pridd yn Gynaliadwy |
| **SuDS** | Systemau Draenio Cynaliadwy |
| **SWIC** | Clwstwr Diwydiant De Cymru |
| **SYG** | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| **TAN** | Nodyn Cyngor Technegol |
| **TOWs** | Coed y Tu Allan i Goetiroedd |
| **TWh** | Awr Terawatt |
| **UDP** | Cynllun Datblygu Unedol |
| **UE** | Undeb Ewropeaidd |
| **UK WESSG** | Grŵp Llywio Strategol Effeithlonrwydd Dŵr y DU |
| **UKCCC** | Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd |
| **UKCP18** | Rhagolygon Hinsawdd y DU 2018 |
| **UKFS** | Safon Coedwigaeth y DU |
| **UKWAS** | Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU |
| **ULEV** | Cerbyd Allyriadau Isel Iawn |
| **UNEP** | Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig |
| **UNESCO** | Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig |
| **UNFCCC** | Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd |
| **UWL** | Label Dŵr Unedig |
| **WaREN** | Rhwydwaith Ecolegol Cymru Gydnerth |

| **Acronym / talfyriad** | **Terminoleg lawn** |
|---|---|
| **WAVES** | Cyfrifeg Cyfoeth a Phrisio Gwasanaethau Ecosystemau |
| **WCMC** | Canolfan Monitro Arfordirol Cymru |
| **WFD** | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| **WHO** | Sefydliad Iechyd y Byd |
| **WKW** | Woodknowledge Wales |
| **WLMF** | Fforwm Rheoli Tir Cymru |
| **WNMP** | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| **WRMP** | Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr |
| **WWC** | Cod Dŵr Coetir |
| **WWEG** | Grŵp Effeithlonrwydd Dŵr Cymru |
| **WWNP** | Gweithio gyda Phrosesau Naturiol |
| **YGLIC** | Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru |

## Tabl 2 Disgrifiad o'r unedau a ddefnyddir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

| **Unedau** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| **°C** | Graddau Celsius — tymheredd |
| **GWh** | Awr Gigawatt – ynni |
| **g/kg** | Gramau fesul cilogram — cyfansoddion pridd |
| **ha** | Hectar(au). 1 ha = 0.01 $km^2$ |
| **keq** | Cyfwerthydd cilogram |
| **kg** | Cilogram — màs |
| **kg y flwyddyn** | Cilogramau y flwyddyn - tynnu llygryddion |
| **km** | Cilometr(au). 1 km $^2$ = 100 ha |
| **l/p/d** | Litr fesul person y dydd |
| **Ml** | Mega litr |
| **m** | Miliwn (Nod 1) |
| **$m^3$** | Metr ciwbig — cyfaint |
| **mg/kg** | Miligramau fesul cilogram — halogyddion pridd |
| **mg/L** | Miligramau fesul litr — crynodiad llygryddion dŵr |
| **Ml** | Megalitr — 1000 $m^3$ |
| **mL/d** | Megalitrau y dydd — cyfradd llif dŵr |
| **Mt** | Miliwn tunnell |
| **MtC** | Miliwn tunnell o garbon |
| **MtCO2e** | Miliwn tunnell o gyfwerthyddion CO2 |
| **MW/GWh/TWh** | Oriau Mega Watt, oriau Giga Watt, oriau Tera Watt. Unedau ynni |
| **t** | Tunnell — màs o 1000 kg |
| **tC/ha** | Tunnell o garbon fesul hectar — stoc carbon |
| **$tCO_2$** | Tunelli metrig o gyfwerthyddion carbon deuocsid |
| **TWh** | Awr Terawatt — uned ynni fawr |
| **$\mu g/m^3$** | Microgramau fesul metr ciwbig — crynodiad llygryddion aer |
| **MW** | Megawatt — pŵer |

## Tabl 3 Diffiniadau o adnoddau naturiol ac ecosystemau a ddefnyddir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

| Categori | Term | Diffiniad |
|---|---|---|
| **Adnodd Naturiol** | Anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill | Y rhywogaethau sydd yn ffurfio ecosystemau Cymru sy'n gallu bod yn bwysig i weithrediad yr ecosystemau, neu ddim, ond sy'n cyfrannu er hynny i fioamrywiaeth gyffredinol Cymru. |
| **Adnodd Naturiol** | Aer | Yn cyfeirio at ansawdd yr aer o'n cwmpas yng Nghymru a'r allyriadau yr ydym yn eu cynhyrchu, gan gynnwys llygryddion a sylweddau ymbelydrol. |
| **Adnodd Naturiol** | Adnoddau dŵr a phrosesau hydrolegol | Mae adnoddau dŵr yn cyfeirio at faint o'n hadnodd dŵr croyw sydd ar gael i gefnogi'r amgylchedd, pobl a busnesau. Prosesau hydrolegol yw prosesau naturiol y gylchred ddŵr, gan gynnwys anweddiad, cyddwysiad, dyodiad, ymdreiddiad a dŵr ffo. Mae prosesau hydrolegol morol ac arfordirol yn cynnwys llanw a thonnau. |
| **Adnodd Naturiol** | Dŵr | Mae dŵr yn hanfodol i'r amgylchedd a phobl. Mae'n creu ac yn cynnal yr ecosystemau y mae pob math o fywyd yn dibynnu arnynt, ac mae hefyd yn darparu dŵr i ni allu yfed, rhedeg diwydiannau, tyfu bwyd a chynhyrchu pŵer. |
| **Adnodd Naturiol** | Pridd | Wedi'u ffurfio gan hindreuliad cerrig a mwynau a chroniad deunyddiau organig, sydd yn aml yn cymryd cannoedd i filoedd o flynyddoedd. Mae ffurfiad pridd yn broses barhaus er y gall cyfraddau colled fod llawer mwy na ffurfiad ac felly dylid ei drin fel adnodd na ellir ei adnewyddu. Priddoedd yw sylfaen tir, ecosystemau a chynefinoedd. |
| **Adnodd Naturiol** | Geoamrywiaeth | Geoamrywiaeth yw'r amrediad (amrywiaeth) o nodweddion daearegol (e.e. cerrig, mwynau, adeileddau, ffosiliau), geomorffolegol (e.e. ffurfiau tir, y dirwedd ffisegol, prosesau ffisegol naturiol) a phridd. |

| Categori | Term | Diffiniad |
|---|---|---|
| **Ecosystem** | Mynydd, gweundir a rhos | Cynefinoedd mynyddig yw'r rhai uwchlaw'r coedlin hinsoddol. Mae gweundir a rhostir yn cynnwys rhostiroedd ar yr ucheldir a'r iseldir, gweundiroedd, gorgorsydd, cynefinoedd mynyddig (gan gynnwys ffridd), cynefinoedd creigiau mewndirol a chlystyrau o redyn ar dir isel. Mae'r ecosystem hon yn aml yn ffurfio brithwaith ag ecosystemau eraill megis Glaswelltiroedd Lled-naturiol, Coetiroedd a Dŵr Croyw. Mae rhostiroedd arfordirol a rhostiroedd ar dwyni wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o ymylon arfordirol. |
| **Ecosystem** | Glaswelltiroedd lled-naturiol | Mae glaswelltiroedd lled-naturiol yn cael eu nodweddu gan gymysgedd o laswelltau a phlanhigion llysieuol, ynghyd â niferoedd amrywiol o hesg, brwyn, mwsoglau a chennau.  Maent yn disgyn i bum categori eang, a ddatblygwyd mewn ymateb i hinsawdd, pridd, hydroleg, daeareg a rheolaeth leol: glaswelltir asidaidd, niwtral, calchaidd, corsiog ac, yn anghyffredin iawn, metelaidd. Maent i'w cael mewn lleoliadau ucheldirol ac iseldirol. Rhestrir chwe math o laswelltiroedd lled-naturiol i fod yn "bwysig iawn" ('cynefinoedd â blaenoriaeth') yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: dolydd yr iseldir; glaswelltir asidaidd sych yr iseldir; glaswellt y gweunydd a phorfeydd brwyn; glaswelltir metelaidd; glaswelltiroedd calchaidd yr iseldir; glaswelltiroedd calchaidd yr ucheldir. Maent yn arbennig o bwysig i blanhigion uwch, ffyngau ac infertebratau. Maent hefyd yn cynnal amrediad o famaliaid, adar a fertebratau eraill. |
| **Ecosystem** | Ffermdir caeedig | Mae ffermdir caeedig yn cynnwys y tir amaethyddol yn iseldir Cymru sydd â ffiniau caeau o'i amgylch. Mae'n cynnwys cnydau âr, garddwriaeth, perllanau a glaswelltiroedd dros dro, yn ogystal â glaswelltiroedd parhaol sydd wedi'u gwella'n amaethyddol, ond nid yw'n cynnwys glaswelltir lled-naturiol caeedig, prysgwydd, coetir fferm a chynefinoedd yn yr ymylon ucheldirol (ffridd). |

| Categori | Term | Diffiniad |
|---|---|---|
| **Ecosystem** | Coetir | Gellir categoreiddio coetiroedd yng Nghymru yn fras fel rhai brodorol (llydanddail yn gyffredinol) ac anfrodorol (conifferaidd yn gyffredinol). Mae'r asesiad hwn yn cwmpasu coetiroedd sy'n bodloni diffiniad y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol, sy'n cynnwys isafswm gorchudd tir (0.5 hectar). Bydd y diffiniad hwn yn cynnwys coetiroedd fferm uwchlaw'r trothwy maint, er na chaiff y rhain eu nodi ar wahân o fewn yr asesiad. Mae grwpiau coed bach a Choed y tu allan i Goetir (ToW) yn cael eu cynnwys mewn asesiadau ecosystemau eraill, gan gynnwys Tir fferm amgaeedig a Threfol |
| **Ecosystem** | Dŵr croyw gan gynnwys dŵr daear | Mae ecosystemau seiliedig ar ddŵr croyw yn digwydd lle bynnag mae glaw, dŵr eira neu ddŵr daear yn casglu mewn sianeli sy'n llifo (afonydd a nentydd), merddwr, neu gorsydd, ffeniau, corsydd pori, gwlyptiroedd a gorlifdiroedd cysylltiedig (Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, 2011, Pennod 9). Dŵr daear yw'r dŵr sy'n cael ei storio mewn pridd a cherrig. Mae'n darparu llif gwaelodol i darllellau, afonydd a gwlyptiroedd (grŵp dŵr croyw). Mae'r ecosystem yma'n cynnwys dŵr daear, gwlyptiroedd, afonydd a nentydd, a merddwr (llynnoedd a phyllau). |
| **Ecosystem** | Trefol | Yr amgylchedd adeiledig (Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, 2011, Pennod 10, Urban). Mae hwn yn cynnwys adeiladau, ffyrdd, gerddi, parciau a mannau gwyrdd anffurfiol, safleoedd gwastraff, ac unrhyw adeiledd neu ofod arall a osodwyd ar gyfer gweithgareddau dynol (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023). |

| Categori | Term | Diffiniad |
|---|---|---|
| **Ecosystem** | Ymylon arfordirol | Cynefinoedd o amgylch arfordir Cymru, gan gynnwys y tri mwyaf helaeth (twyni tywod, morfeydd heli a chlogwyni môr) a dau arall (lagwnau heli neu arfordirol a graean bras). Mae cynefinoedd eraill a geir o amgylch arfordir Cymru (trefol, glaswelltiroedd lled-naturiol, ffermdir caeedig, glannau creigiog, fflatiau llaid a thywod, aberoedd, ac ati) yn cael eu cynnwys o dan ecosystemau eraill. |
| **Ecosystem** | Morol | Mae'r ecosystem forol yn cynnwys ardaloedd rhynglanwol ac islanwol y glannau. Yr ardal rynglanwol yw'r ardal rhwng y marc penllanw a‘r distyll sy’n cael ei boddi gan ddŵr môr ar rai camau o'r cylch llanwol. Yr ardal islanwol yw'r ardal sydd dan ddŵr môr yn barhaol o farc y distyll hyd at 12 morfilltir allan yn y môr. (Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, 2011, Pennod 12) |

## Tabl 4 Geirfa termau a ddefnyddir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Adferiad / Adfer** | (safleoedd tir halogedig) Ystod eang o gamau gweithredu y gellir eu defnyddio i leihau'r risg o dir halogedig. | CNC (2016) *Cyflwr Tir Halogedig yng Nghymru*. Caerdydd: Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-the-environment-reports/the-state-of-contaminated-land-in-wales/?lang=en (Cyrchwyd: 18 Mawrth 2024 |
| **Adfywio** | Proses sy'n ymwneud â rhywbeth yn cael ei ailffurfio neu ail-greu neu a nodweddir gan hyn. | Merriam-Webster. 2020. Diffiniad 'regenerative'. Ar gael yn: https://www.merriam-webster.com/dictionary/regenerative. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020].<br><br>Merriam-Webster. 2020. Diffiniad 'regenerate'. Ar gael yn: https://www.merriam-webster.com/dictionary/regenerate. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Adnoddau naturiol** | Y cyfansoddion byw a di-fyw mewn ecosystemau. Gan gynnwys: anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill; aer, dŵr a phridd; mwynau; nodweddion a phrosesau daearegol; nodweddion ffisiograffigol; a nodweddion a phrosesau hinsoddol. | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| **Addasu** | Mewn *systemau dynol*, y broses o addasu i'r *hinsawdd* wirioneddol neu ddisgwyliedig a'i heffeithiau, er mwyn lleddfu difrod neu fanteisio ar gyfleoedd buddiol. Mewn systemau naturiol, y broses o addasu i'r hinsawdd wirioneddol a'i heffeithiau; gall ymyrraeth ddynol hwyluso'r broses o addasu i'r hinsawdd ddisgwyliedig a'i heffeithiau<br><br>Gweler hefyd lliniaru | IPCC (dim dyddiad) *IPCC Glossary Search*. Ar gael yn: https://apps.ipcc.ch/glossary/ [Cyrchwyd: 13 Ionawr 2026] |
| **Aerosolau eilaidd organig biogenig** | Mae'r rhain yn cael eu ffurfio o'r cyfansoddion organig anweddol biogenig sy'n cael eu cynhyrchu gan blanhigion. Maent yn cael eu hallyrru gan lystyfiant i'r atmosffer a gallant gael effeithiau sylweddol ar organebau eraill ac ar gemeg yr atmosffer. | Peñuelas J, Staudt M. 2010. BVOCs and global change. Trends in plant science 15, 133-144. |
| **Afonol** | Yn ymwneud â nant neu afon neu'n byw mewn nant neu afon. | Merriam-Webster. 2020. Diffiniad 'fluvial'. Ar gael yn: https://www.merriam-webster.com/dictionary/fluvial. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Allyriadau cyrn mwg** | Allyriadau cyrn mwg yw'r nwyon a solidau sy'n dod allan o'r corn mwg (ffliw neu simnai) ar ôl y broses losgi. | Encylopedia.com. 2019. Esboniad o ystyr 'stack emissions'. Ar gael yn: https://www.encyclopedia.com/environment/encyclopedias-almanacs-transcripts-and-maps/stack-emissions#:~:text=Stack%20emissions%20are%20those%20gases,wastes%20that%20contain%20organic%20compounds. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |
| **Amaeth-ecoleg** | Astudiaeth o berthynas cnydau amaethyddol a'r amgylchedd. | Y Cenhedloedd Unedig. 1997. Glossary of Environment Statistics. Studies in Methods Series F, No. 67. Efrog Newydd: Y Cenhedloedd Unedig. Ar gael yn: https://unstats.un.org/unsd/publication/seriesf/seriesf_67e.pdf. [Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Amaeth-goedwigaeth** | Term cyffredinol ar gyfer systemau a thechnolegau defnydd tir lle defnyddir lluosflwydd coediog (coed, llwyni, palmwyddau, bambŵ ac yn y blaen) yn fwriadol ar yr un uned rheoli tir â chnydau amaethyddol a/neu anifeiliaid, un ai ar ffurf trefniant gofodol neu ddilyniant amserol. | Y Cenhedloedd Unedig. 1997. Glossary of Environment Statistics. Studies in Methods Series F, No. 67. Efrog Newydd: Y Cenhedloedd Unedig. Ar gael yn: https://unstats.un.org/unsd/publication/seriesf/seriesf_67e.pdf. [Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2020]. |
| **Amaethyddiaeth ddwys** | Ffermio sy'n defnyddio llawer o beiriannau, llafur, cemegion ac ati er mwyn tyfu cymaint o gnydau neu gadw cymaint o anifeiliaid â phosibl ar y tir sydd ar gael. | Cambridge Dictionary. 2020. Diffiniad ‘intensive agriculture’. Ar gael yn: https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/intensive-agriculture. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |
| **Amaethyddiaeth gynaliadwy** | Mae cynaliadwyedd yn cyfeirio at gynnal a chadw adnoddau i'w defnyddio yn y dyfodol, ac i osgoi eu disbyddu. Yng nghyd-destun amaethyddiaeth, mae hyn yn cynnwys agweddau economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol. Mae angen cydbwyso pob un o’r rhain er mwyn diogelu’r capasiti ar gyfer cynhyrchu bwyd yn y dyfodol. | Llywodraeth Cymru 2025. Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o’r cynllun. Ar gael o: Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o’r cynllun [HTML] \| LLYW.CYMRU |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Amrywiaeth** | Amrywiaeth a helaethrwydd cymharol o endidau gwahanol mewn sampl. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Glossary Cambridge: UNEP-WCMC. Ar gael yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |
| **Anfantais** | Unrhyw ganlyniad negyddol (effaith negyddol, cost, cyfaddawd) y bydd cymdeithas a/neu adnoddau naturiol yn ei ysgwyddo. Yn SoNaRR 2025, rydym yn defnyddio'r term i ddisgrifio effeithiau negyddol sefyllfa adnoddau naturiol ar les dynol. | SoNaRR 2025 |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
| --- | --- | --- |
| **Ardaloedd Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf** | Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen sy'n canolbwyntio ar gymunedau sy'n cefnogi agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar y 10% o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, fel y'u diffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011. Roedd pob clwstwr yn seiliedig ar yr ardaloedd hyn ac mae meini prawf wedi'u sefydlu i benderfynu pa ardaloedd eraill, rhywfaint yn llai difreintiedig, sydd hefyd i'w cynnwys. Roedd 52 o glystyrau i gyd. Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi datblygu ers hynny, gyda'r sylw'n symud tuag at raglenni lleihau tlodi mwy integredig, sy'n canolbwyntio ar gyfranogwyr ac sy'n targedu angen waeth beth fo'r cod post, gan adeiladu ar wersi o'r model clystyrau. | Llywodraeth Cymru Dangosyddion Allweddol yn ôl Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, ar gael o: Dangosyddion Allweddol yn ôl Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf. [Cyrchwyd 12 Ionawr 2026] |
| **Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is** | Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn cynnwys grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch (OAs), pedwar neu bump fel arfer. Maent yn cynnwys rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd ac mae ganddynt boblogaeth breswyl fel arfer rhwng 1,000 a 3,000 o unigolion.<br><br>Gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021, gwnaed rhai newidiadau i LSOAs 2011 o ganlyniad i newidiadau o ran poblogaeth ac aelwydydd ers 2011. Crëwyd LSOAs newydd 2021 drwy uno neu rannu LSOAs 2011 er mwyn sicrhau bod trothwyon poblogaeth ac aelwydydd yn cael eu bodloni. | Swyddfa Ystadegau Gwladol. Statistical geographies. Ar gael o: Statistical geographies - Swyddfa Ystadegau Gwladol |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Ased** | Rhywbeth (gwrthrych neu gysyniad) o werth sy'n dod a buddion neu gyfres o fuddion i bobl. Mae'n fodd o gario gwerth ymlaen o un cyfnod cyfrifyddu i'r llall. | Pwyllgor Cyfalaf Naturiol. 2013. The State of Natural Capital: Towards a framework for measurement and valuation. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/516707/ncc-state-natural-capital-first-report.pdf. [Cyrchwyd 20 Tachwedd 2020]. |
| **Asideiddio** | Mae asideiddio yn broses naturiol. Caiff y term ei ddefnyddio i ddisgrifio'r golled o fasau maethynnau (calsiwm, magnesiwm a photasiwm) drwy'r broses o drwytholchi a'u disodli gan elfennau asidig (hydrogen ac alwminiwm). | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Glossary Cambridge: UNEP-WCMC. Ar gael yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |
| **Atebion sy'n seiliedig ar natur** | Camau gweithredu i amddiffyn, rheoli'n gynaliadwy ac adfer ecosystemau naturiol neu ecosystemau a addaswyd sy'n mynd i'r afael â heriau cymdeithasol yn effeithiol ac yn ymaddasol, gan ddarparu buddion i fioamrywiaeth a llesiant dynol ar yr un pryd. | Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. 2020. Nature-based solutions [ar-lein]. Ar gael yn: 2nd CEM Dialogue: IUCN Global Standard for Nature-based Solutions November 23rd, 2020 [Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Banc tir** | Ardal o dir sy'n eiddo i berson neu sefydliad sy'n cael ei ystyried yn ased gan y gellid ei defnyddio ar gyfer adeiladu eiddo yn y dyfodol. | Cambridge Dictionary. 2020. Diffiniad 'land bank'. Ar gael yn: https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/land-bank. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |
| **Bioamrywiaeth** | ("amrywiaeth fiolegol") Mae'r amrywioldeb ymysg organebau byw o bob ffynhonnell, gan gynnwys ecosystemau daearol a morol ac ecosystemau dyfrol eraill. Mae'n cynnwys amrywiaeth o fewn a rhwng rhywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Caergrawnt: UNEP-WCMC. |
| **Biodanwydd** | Tanwydd hylifol sydd wedi deillio o fiomas ac sy'n cael ei ddefnyddio yn bennaf ym maes trafnidiaeth. Y biodanwyddau mwyaf amlwg yw ethanol a biodiesel. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Glossary. Caergrawnt: UNEP-WCMC. Ar gael yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Biogapasiti** | Gallu ardal benodol i gynnal bywyd dynol o ran faint o fwyd, tanwydd ac ati y gall eu cynhyrchu a faint o wastraff y gall ddelio ag ef. | Cambridge Dictionary. 2020. Diffiniad 'biocapacity'. Ar gael yn: https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/biocapacity. [Cyrchwyd 20 Tachwedd 2020]. |
| **Bio-gynyddol** | Mae bio-gynyddu (y broses o ychwanegu straeniau a ddewisir / meithriniadau cymysg i adweithyddion dŵr gwastraff i wella catabolaeth cyfansoddion penodol, e.e. cynhyrchion organig gwrthsafol, neu alw cyffredinol cemegion am ocsigen) yn dechneg addawol i ddatrys problemau ymarferol mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gwella effeithlonrwydd gwaredu. | Herrero M, Stuckey DC. 2015. Bioaugmentation and its application in wastewater treatment: A review. Chemosphere 140: 119-128. |
| **Biomas** | Y màs o feinweoedd mewn organebau byw mewn poblogaeth, ecosystem, neu uned ofodol. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Glossary Cambridge: UNEP-WCMC. Ar gael yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |

| **Term** | **Diffiniad** | **Ffynhonnell y diffiniad** |
|---|---|---|
| **Bio-olosg** | 'Bio-olosg' yw term cyffredinol i ddisgrifio unrhyw ddeunydd organig sydd wedi'i garboneiddio o dan dymheredd uchel (300–1000°C) gerbron ychydig neu ddim ocsigen. | Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol. 2020. Biochar. Ar gael yn: https://www.rhs.org.uk/advice/profile?PID=1014. [Cyrchwyd 20 Tachwedd 2020]. |
| **Biosffer** | Y rhan o amgylchedd y Ddaear lle mae bywyd yn bodoli. | Cambridge Dictionary. 2020. Diffiniad 'biosphere'. Ar gael yn: https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/biosphere. [Cyrchwyd 20 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Blynyddoedd oes iach (neu flynyddoedd oes wedi'u haddasu ar gyfer anabledd)** | Diffinnir blynyddoedd oes iach, a elwir hefyd yn ddisgwyliad oes heb anabledd, fel nifer y blynyddoedd y mae disgwyl i unigolyn barhau i fyw mewn cyflwr iach.<br>Mae blynyddoedd oes wedi'u haddasu ar gyfer anabledd yn fesur seiliedig ar amser sy'n cyfuno blynyddoedd o fywyd a gollwyd o ganlyniad i farwolaeth gynnar a blynyddoedd o fywyd a gollwyd o ganlyniad i'r amser a dreuliwyd mewn cyflwr afiach, neu flynyddoedd o fywyd iach a gollwyd o ganlyniad i anabledd. | Eurostat. 2020. Statistics explained [ar-lein]. Ar gael yn: https://ec.europa.eu/eurostat/statistics-explained/index.php?title=Glossary:Healthy_life_years_(HLY). [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020].<br><br>World Health Organisation Data Platform. 2020. Indicator Metadata Registry List [ar-lein] Ar gael yn: https://www.who.int/data/gho/indicator-metadata-registry/imr-details/158#:~:text=The%20overall%20burden%20of%20disease,due%20to%20disability%20(YLDs). [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |
| **Broc môr** | Eitemau bach neu ddibwys a ddarganfyddir gyda'i gilydd, yn enwedig y rhai nad ydynt ag unrhyw gysylltiad â'i gilydd. | Collins Dictionary. 2020. Diffiniad 'flotsam and jetsam'. Ar gael yn: https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/flotsam-and-jetsam. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Buddion** | Mantais neu elw a enillwyd gan rywbeth. Yn nghyd-destun yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, gellir disgrifio budd fel unrhyw beth y mae unrhyw ran neu gasgliad o adnoddau naturiol yn ei wneud i gynnal bywyd a llesiant ar y Ddaear. Gallai fod yn fudd amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol neu economaidd, a gall fod yn fesuradwy ac anfesuradwy. Rydym fel arfer yn defnyddio'r term "gwasanaethau ecosystemau" i gategoreiddio'r buddion hyn, er y gallwn feddwl yr un ffordd am y sawl ffordd mae adnoddau naturiol yn cyfrannu at y nodau llesiant. | Gwasg Prifysgol Rhydychen 2016. Diffiniad 'benefit'. Oxford Dictionary. Ar gael yn: http://www.oxforddictionaries.com/definition/english/benefit. [Cyrchwyd 20 Tachwedd 2020]. |
| **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** | Grŵp (bwrdd) a sefydlir ym mhob ardal awdurdod lleol fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r byrddau yn cynnwys yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol ar gyfer ardal sydd ag unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol, yr awdurdod tân ac achub Cymreig ar gyfer ardal sydd ag unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol, a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru). | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Capasiti’r Cae (capasiti’r priddoedd)** | Y pwynt y mae diffyg lleithder y pridd ar sero, h.y. pan fydd holl fandyllau’r pridd heblaw'r rhai sy'n draenio yn sgil disgyrchiant yn llawn dŵr. Mae priddoedd fel arfer yn dychwelyd i gapasiti yn ystod yr hydref neu ddechrau'r gaeaf yn ystod cyfnodau pan fydd lefel y glawiad yn fwy na lefel yr anwedd-drydarthiad. Mae'r cyfnod capasiti caeau, a fesurir mewn dyddiau, yn dod i ben yn y gwanwyn pan fydd lefel yr anwedd-drydarthiad yn fwy na lefel y glawiad, gan achos i ddiffyg lleithder ddechrau cronni. | Llywodraeth Cymru (2022). *Adolygiad Technegol Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhan 3: Sychder.* Ar gael o: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/agricultural-land-classification-technical-review-part-3-spep2020-21-02.pdf [Cyrchwyd 21 Hydref 2025]. |
| **Carbon glas** | Y carbon a ddelir gan gynefinoedd morol. | Armstrong S, Hull S, Pearson Z, Wilson R, Kay S. 2020. Estimating the Carbon Sink Potential of the Welsh Marine Environment. Caerdydd: CNC. |
| **Coedamaeth** | Rheolaeth o dir coedwig ar gyfer pren. | Y Cenhedloedd Unedig. 1997. Glossary of Environment Statistics. Studies in Methods Series F, No. 67. Efrog Newydd: Y Cenhedloedd Unedig. Ar gael yn: https://unstats.un.org/unsd/publication/seriesf/seriesf_67e.pdf [Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Cornentu a gylïo** | Creu ffosydd, sianeli neu "gornentydd" dwfn, fel arfer drwy erydiad dŵr, sef ffurf gyffredin o erydu. | The Free Dictionary. 2020. Diffiniad ‘gullying’. Ar gael yn: https://www.thefreedictionary.com/gullying . [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2020].<br><br>The Free Dictionary. 2020. Diffiniad ‘rill erosion’. Ar gael yn: https://encyclopedia2.thefreedictionary.com/rill+erosion. [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2020]. |
| **Creu lleoedd** | Syniad trosfwaol a dull ymarferol ar gyfer gwella cymdogaeth, dinas neu ranbarth. Mae'n broses gydweithredol o lywio tir y cyhoedd er mwyn mwyafu gwerth a rennir. | Project for Public Spaces. 2010. What is placemaking? [ar-lein] Ar gael yn: https://www.pps.org/article/what-is-placemaking. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |
| **Cyd-fuddion** | Mae cyd-fuddion yn awgrymu strategaeth 'llwyddiant i bawb' i fynd i'r afael â dau neu fwy o nodau trwy weithredu mesur polisi unigol. | Mayrhofer JP, Gupta G. 2016. The science and politics of co-benefits in climate policy. Environmental Science and Policy 57, 22-30. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Cydlyniad trefol** | Set o ffactorau sy’n cael dylanwad uniongyrchol ar ddatblygu trefol, gan gynnwys prosesau cynllunio a ffactorau economaidd-gymdeithasol a diwylliannol. | Pinto AJ, Ramesar A. 2012. Urban cohesion: a guiding concept for new urban realities. Yn Ambivalent Landscapes. Sorting out the present by designing the future. Faculdade de Arquitectura UTL. C.Dias Coelho (gol.). |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Cyfalaf** | Ceir ffurfiau amrywiol ar gyfalaf. Mae'r rhain yn cynnwys cyfalaf naturiol, dynol, a gynhyrchir, ariannol a chymdeithasol. Maent oll yn stociau sydd â'r gallu i gynhyrchu llifau o allbynnau sy'n ddymunol yn economaidd. Mae cynnal pob un o'r pum math o gyfalaf yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd datblygu economaidd.<br><br>Mae cyfalaf ariannol yn hwyluso cynhyrchiant economaidd, er nad ydyw yn ei hun yn gynhyrchiol, gan gyfeirio yn hytrach at system o berchenogaeth neu reolaeth o gyfalaf ffisegol.<br><br>Mae cyfalaf naturiol wedi'i wneud o adnoddau a gwasanaethau ecosystemau'r byd naturiol.<br><br>Mae cyfalaf a gynhyrchir yn cynnwys asedau ffisegol a gynhyrchir drwy gymhwyso gweithgareddau cynhyrchiol dynol i gyfalaf naturiol ac sy'n gallu darparu llif o nwyddau neu wasanaethau.<br><br>Mae cyfalaf dynol yn cyfeirio at alluoedd cynhyrchiol unigolyn, sy'n gallu cael eu hetifeddu a'u caffael drwy addysg a hyfforddiant.<br><br>Mae cyfalaf cymdeithasol, yr un mwyaf dadleuol a'r anoddaf i'w fesur, yn cynnwys stoc o ymddiriedaeth, cyd-ddealltwriaeth, gwerthoedd a rennir a gwybodaeth o'r gymdeithas. | Goodwin NR. 2003. Five Kinds of Capital: Useful Concepts for Sustainable Development. Global development and environment institute Working paper no. 03-07. Ar gael yn: https://core.ac.uk/download/pdf/7051857.pdf. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddebau** | "Cyfarwyddeb" yw deddfwriaeth sy'n gosod nod y mae'n rhaid i holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd ei gyflawni. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y gwledydd unigol yw creu eu cyfreithiau eu hunain ar sut i gyflawni'r nodau hyn. E.e. Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd – Atodiad I cynefinoedd, Atodiad II rhywogaethau).<br><br>Nid yw Cyfarwyddebau'r UE bellach yn berthnasol yn uniongyrchol yn y DU ar ôl Brexit (ar ôl Rhagfyr 31, 2020), ond cadwodd y DU y cyfreithiau domestig a'u gweithredodd fel **Cyfraith yr UE a Ddargedwir**. | Europa EU. 2016. European Union – Regulations, Directives and other acts [ar-lein]. Ar gael yn: https://europa.eu/european-union/law/legal-acts_en. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Cyflwr** | Yng nghyd-destun yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, mae cyflwr (sefyllfa) yn cyfeirio at ansawdd a maint cyfredol adnoddau naturiol ac amrywiaeth, ehangder, cyflwr a chysylltedd cyfredol ecosystem. | Food and Agriculture Organization of the United Nations (2025) *Driver-Pressure-State-Impact-Response Framework (DPSIR) \| Land & Water \| Food and Agriculture Organization of the United Nations \| Land & Water \| Food and Agriculture Organization of the United Nations*. Available at: https://www.fao.org/land-water/land/land-governance/land-resources-planning-toolbox/category/details/en/c/1026561/ (Cyrchwyd: 20 Mehefin 2024).<br><br>Fe'i diffinnir o fewn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. |
| **Cyflwr (rhywogaeth neu gynefin)** | Y gallu i gynhyrchu gwasanaethau o'i gymharu â'i allu posibl. Disgrifir hwn fel arfer mewn perthynas â chyflwr cyfeirio a ddymunir (cyflwr da neu ffafriol) ac mae fel arfer yn cael ei ddiffinio o ran ehangder, dosbarthiad, strwythurau a swyddogaethau, cyfansoddiad rhywogaethau ar gyfer cynefinoedd, a strwythur maint poblogaeth ac ansawdd cynefin ar gyfer rhywogaethau. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report.Caergrawnt: UNEP-WCMC. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Cynefin** | Ardal ecolegol neu amgylcheddol sydd â phoblogaeth o rywogaeth benodol o anifeiliaid neu blanhigion. Defnyddir 'cynefinoedd bras' i ddosbarthu gwahanol ecosystemau ar gyfer adrodd. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Glossary Cambridge: UNEP-WCMC. Ar gael yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |
| **Cynefin bras** | Fe'i defnyddir i ddosbarthu gwahanol ecosystemau ar gyfer adrodd.<br><br>[Yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, mae'r rhain yr un peth â'r ecosystemau SoNaRR ac yn cynnwys: Mynydd, gweundir a rhos; Glaswelltir lled-naturiol; Ffermdir caeedig; Coetiroedd; Trefol; Dŵr croyw; Ymylon arfordirol; Morol] | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report.Caergrawnt: UNEP-WCMC. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Cynefinoedd neu nodweddion lled-naturiol** | Cynefinoedd lle mae'r llystyfiant yn cynnwys tacsonau planhigion brodorol yn bennaf, ond lle mae defnydd tir dynol a gweithgareddau eraill yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu a chynnal cymuned. Mae'r enghreifftiau yn niferus, gan amrywio ar draws y sbectrwm o brif ddosbarthiadau cynefin yng Nghymru, gan gynnwys rhan helaethaf mathau o goetir collddail a rhostir corlwyni, a sawl ffurfiant arfordirol. Weithiau, gelwir y mynegiadau cynefin sydd â dylanwad lleiaf gweithgareddau dynol arnynt yn 'bron yn naturiol'; ar ochr arall y sbectrwm mae cynefinoedd penodol sydd wedi'u diraddio, fel cors a addaswyd, hefyd yn cael eu trin fel lled-naturiol. | Blackstock TH, Howe EA, Stevens JP, Burrows CR a Jones PS. 2010. Habitats of Wales: a comprehensive field survey 1979-1997. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. |
| **Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf** | Dal y nifer fwyaf y gellir ei thynnu'n ddiogel o'r stoc tra'n cynnal ei gapasiti i gynhyrchu cynnyrch cynaliadwy yn y tymor hir. | Lart, W. (2022) ‘Guide to fishing at Maximum Sustainable Yield’. Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr. Ar gael yn: https://www.seafish.org/media/0iwdb101/guide-to-fishing-at-maximum-sustainable-yield-msy.pdf (Cyrchwyd: 12 Tachwedd 2025).<br><br>guide-to-fishing-at-maximum-sustainable-yield-msy.pdf |
| **Cysylltedd** | Y graddau mae'r dirwedd yn hwyluso neu’n amharu ar symudiad ymysg darnau adnoddau. | Taylor PD, Fahrig L, Heinen K, Merriam G. 1993. Connectivity is a vital element of landscape structure. Oikos 68, 571-572. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Cywasgiad** | Newid natur y pridd fel bod gostyngiad yng nghyfaint y gwagleoedd rhwng gronynnau pridd neu agregau; mae'n digwydd fel cynnydd yn nwysedd swmp a gall pridd sydd wedi'i gywasgu'n sylweddol droi'n anathraidd i bob pwrpas. Mae rhai priddoedd wedi'u cywasgu'n naturiol, e.e. priddoedd â gweadedd trwm iawn (gwead main). Achosir cywasgiad o waith dyn  trwy symud peiriannau trwm heibio a defnydd dwys iawn o bridd. | RECARE Hub. 2018. Diffiniad 'soil compaction' [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.recare-hub.eu/glossary/89:soil-compaction. [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2020]. |
| **Dadansoddiad cost a budd** | Techneg a ddylunir i benderfynu dichonoldeb prosiect neu gynllun drwy feintioli ei gostau a'i fanteision. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Glossary Cambridge: UNEP-WCMC. Ar gael yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Dal a storio carbon** | (hefyd storio carbon, dal carbon) Y defnydd o sylweddau sy'n cynnwys carbon, yn enwedig carbon deuocsid, i gronfa storio (e.e. coed, priddoedd), gan felly leihau carbon deuocsid atmosfferig. | Allwood JM, Bosetti V, Dubash NK, Gómez-Echeverri L a von Stechow C. 2014. Glossary. Yn: Panel Rhynglywodraethol ar yr Newid yn yr Hinsawdd. 2014. Climate Change, 2014: Mitigation of Climate Change. Contribution of Working Group III to the Fifth Assessment Report of the Intergovernmental Panel on Climate Change. Gwasg Prifysgol Caergrawnt, Caergrawnt, y Deyrnas Unedig ac Efrog Newydd, Efrog Newydd, UDA. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | Mae dangosyddion yn meintioli gwybodaeth drwy syntheseiddio gwybodaeth wahanol a lluosog yn werth a arsylwyd. | Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop. 2015. European ecosystem assessment – concept, data and implementation. Contribution to Target 2 Action 5 Mapping and Assessment of Ecosystems and their Services (MAES) of the EU Biodiversity Strategy to 2020. Adroddiad Technegol Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop rhif 6/2015. ISSN 1725-2237 |
| **Darnio** | (darnio cynefinoedd) Darnio yw canlyniad trawsnewid darnau cynefin mawr yn ddarnau cynefin llai, mwy ynysig. | Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop. 2011. Landscape fragmentation in Europe. Adroddiad ar y cyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop a Swyddfa Ffederal yr Amgylchedd. Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop Rhif 2/2011. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Datblygu cynaliadwy** | Datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. | Y Cenhedloedd Unedig. 2020. What is sustainable development? Sustainable development goals. Ar gael yn: https://www.un.org/sustainabledevelopment/development-agenda/#:~:text=Sustainable%20development%20has%20been%20defined,to%20meet%20their%20own%20needs. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |
| **Datganiadau Ardal** | Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi bod rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi datganiadau at ddibenion hwyluso'r gwaith o weithredu'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol. Mae pob datganiad yn cyfateb i ardal benodol o Gymru ac yn cynnwys cyfeiriad at adnoddau naturiol yn yr ardal, y buddion y maent yn eu darparu, a'r blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy sydd angen mynd i'r afael â hwy. | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiadau Ardal |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Datgarboneiddio** | Y broses a ddefnyddir gan wledydd neu endidau eraill ar gyfer y nod o gyflawni economi carbon isel, neu gan unigolion gyda'r nod o leihau eu defnydd o garbon. | Panel Rhynglywodraethol ar yr Newid yn yr Hinsawdd. 2014. Annex II: Glossary [Mach KJ, Planton S, von Stechow C (goln.)] Yn: Climate Change 2014: Synthesis Report. Contribution of Working Groups I, II and III to the Fifth Assessment Report of the Intergovernmental Panel on Climate Change [Tîm Ysgrifennu Craidd, Pachauri RK, Meyer LA (goln.)]. Panel Rhynglywodraethol ar yr Newid yn yr Hinsawdd, Geneva tt. 117-130. Ar gael yn: https://www.ipcc.ch/site/assets/uploads/2018/02/AR5_SYR_FINAL_Annexes.pdf. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** | Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau, a dilyn dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu ni i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol. Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant. Mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal asesiadau llesiant i helpu i hwyluso'r broses o weithredu i wella llesiant. Bydd dangosyddion llesiant yn cael eu defnyddio i fesur llwyddiant gweithredoedd. | Llywodraeth Cymru 2015. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Yr hanfodion. Ar gael yn: https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf. [Cyrchwyd 23 Tachwedd 2020]. |
| **Deunydd cyfansawdd** | Deunydd sydd wedi'i wneud o ddau neu fwy o ddeunyddiau cyfansoddol sydd â phriodweddau cemegol neu ffisegol sylweddol wahanol. | TWI. 2020. What is a composite material? (a definitive guide) [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.twi-global.com/technical-knowledge/faqs/what-is-a-composite-material. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Deunydd eildro** | Deunydd sydd yn gallu cael ei ailgylchu. Fel arfer, fe'i hanfonir i ganolfan ailgylchu gwastraff neu gyfleuster adfer deunyddiau, lle bydd yn cael ei brosesu. | Collins Dictionary. 2020. Diffiniad 'recyclate'. Ar gael yn: https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/recyclate. [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2020].<br><br>Your Dictionary. 2020. Diffiniad 'recyclate'. Ar gael yn: https://www.yourdictionary.com/recyclate. [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Di-garbon** | Y gostyngiad o allyriadau carbon i sero. Mae allyriadau di-garbon net yn cael eu cyflawni pan gaiff allyriadau CO2 anthropogenig eu cydbwyso'n fyd-eang gan CO2 yn cael ei waredu trwy ddulliau anthropogenig dros gyfnod penodol. | Panel Rhynglywodraethol ar yr Newid yn yr Hinsawdd, 2018: Atodiad I: Glossary [Matthews JBR. (gol.)]. Yn: Global Warming of 1.5°C. An IPCC Special Report on the impacts of global warming of 1.5°C above pre-industrial levels and related global greenhouse gas emission pathways, in the context of strengthening the global response to the threat of climate change, sustainable development, and efforts to eradicate poverty [Masson-Delmotte V, Zhai P, Pörtner H-O, Roberts D, Skea J, Shukla PR, Pirani A, Moufouma-Okia W, Péan C, Pidcock R, Connors S, Matthews JBR, Chen Y, Zhou X, Gomis MI, Lonnoy E, Maycock T, Tignor M, Waterfield T (goln.)]. Yn y wasg |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd** | Digwyddiadau o lygredd yn cyrraedd yr aer, tir neu ddŵr a adroddir i Cyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n achosi effaith amgylcheddol. | Cyfoeth Naturiol Cymru. 2025. Digwyddiadau Llygredd Amgylcheddol Cymru \| Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru |
| **Dim Gwastraff** | Dim Gwastraff yw lle caiff yr holl wastraff a gynhyrchir ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu fel adnodd, heb fod angen unrhyw safleoedd tirlenwi neu adfer ynni | Tu Hwnt i Ailgylchu \| LLYW.CYMRU |
| **Diraddio** | (ecosystem) Gostyngiad cyson yn y gallu i ddarparu gwasanaethau ecosystemau. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Glossary Cambridge: UNEP-WCMC. Ar gael yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Dirywiol** | Yn cynnwys neu'n achosi gostyngiad mewn grym effeithiol, hyfywedd neu ansawdd hanfodol i gyflwr gwaeth, neu'n rhan o hyn neu'n ymwneud ag ef. | Merriam-Webster. 2020. Diffiniad 'degenerative'. Ar gael yn: https://www.merriam-webster.com/dictionary/degenerative. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020].<br><br>Merriam-Webster. 2020. Diffiniad 'degeneration'. Ar gael yn: https://www.merriam-webster.com/dictionary/degeneration. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |
| **Dosbarthiad Tir Amaethyddol** | Mae'r ALC yn darparu fframwaith ar gyfer dosbarthu tir yn ôl y graddau y mae ei nodweddion ffisegol neu gemegol yn gosod cyfyngiadau hirdymor ar ddefnydd amaethyddol, a dyma'r unig system gymeradwy ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol yng Nghymru a Lloegr. Gellir defnyddio'r dosbarthiad ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. | DEFRA a Llywodraeth Cymru. 2025. Agricultural Land Classification of England and Wales, Guidelines for grading the quality of agricultural land. Ar gael o: https://publications.naturalengland.org.uk/publication/6257050620264448 [Cyrchwyd Rhagfyr 2025]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Dull 'cyfoeth cynhwysol'** | Cyfoeth cynhwysol yw gwerth cymdeithasol holl asedau cyfalaf gwlad (cyfalaf naturiol, dynol ac a gynhyrchir). | Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig. 2018. Inclusive Wealth Report 2018. Ar gael yn: https://www.unenvironment.org/resources/report/inclusive-wealth-report-2018. [Cyrchwyd: 27 Tachwedd 2020]. |
| **Dull systemau cyfan** | Yn ystyried cydberthynas problemau a datrysiadau. Yng nghyd-destun yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, mae hyn yn ystyried yr holl brif systemau cymdeithasol gyda'i gilydd – systemau bwyd, ynni, symudedd a systemau adeiledig – sy'n cyfrannu fwyaf at bwysau amgylcheddol. | SoNaRR 2020 |
| **Dŵr daear** | Yr holl ddŵr sydd o dan wyneb y ddaear yn y parth trwytho ac mewn cyswllt uniongyrchol â'r tir neu'r isbridd. Mae'n darparu llif gwaelodol i ffynhonnau, afonydd a gwlyptiroedd ac yn cyfrannu at gyflenwadau dŵr yfed | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor o 23 Hydref 2000) |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Dyled difodiant** | Mewn cymunedau ecolegol, nifer neu gyfran y rhywogaethau arbenigol mewn cynefin y disgwylir iddynt ddiflannu yn y pen draw ar ôl aflonyddwch amgylcheddol megis dinistrio’r cynefin, newid yn yr hinsawdd neu oresgyniad rhywogaethau egsotig. Mewn rhywogaeth sengl, nifer neu gyfran y poblogaethau y disgwylir iddynt ddiflannu yn y pen draw ar ôl newid yn y cynefin. | Kuussaari M, Bommarco R, Heikkinen RK, Helm A, Krauss J, Lindborg R, Öckinger E, Pärtel M, Pino J, Rodà F, Stefanscu C, Teder T, Zobel M a Steffan-Dewenter I. 2009. Extinction debt: a challenge for biodiversity conservation. *Trends in Ecology and Evolution*, 24 (10), 564-571. |
| **Economi gylchol** | Mae economi gylchol yn ddewis arall yn lle economi linol draddodiadol (cynhyrchu, defnyddio, gwaredu), lle rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo modd, gan dynnu'r gwerth mwyaf oddi wrthynt wrth eu defnyddio, ac wedyn adfer ac atgynhyrchu cynhyrchion a deunyddiau ar ddiwedd oes pob gwasanaeth. | WRAP. 2016. WRAP and the circular economy [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.wrap.org.uk/about-us/about/wrap-and-circular-economy. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
| --- | --- | --- |
| **Ecosystem** | Cymunedau o anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill sy'n rhyngweithio a'u hamgylchedd (ffisegol a chemegol) di-fyw. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Caergrawnt: UNEP-WCMC.<br>Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop. 2015. European ecosystem assessment – concept, data and implementation. Contribution to Target 2 Action 5 Mapping and Assessment of Ecosystems and their Services (MAES) of the EU Biodiversity Strategy to 2020. Adroddiad Technegol Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop rhif 6/2015. ISSN 1725-2237. |
| **Ehangder** | Y raddfa, neu arwynebedd a gwmpesir, gan adnodd naturiol, ecosystem neu gynefin. | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Erthygl 17 (o Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop)** | Mae Erthygl 17 yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau adrodd bob chwe blynedd am y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Gan fod prif amcan y gyfarwyddeb am gynnal ac adfer statws cadwraeth ffafriol ar gyfer mathau o gynefinoedd a rhywogaethau o ddiddordeb cymunedol, mae monitro ac adrodd o dan Erthygl 17 yn canolbwyntio ar gofnodi statws a thueddiadau'r mathau o gynefinoedd a rhywogaethau hyn.<br><br>Noder bod y gwaith adrodd hwn wedi cael ei ddisodli gan waith adrodd Rheoliadau Cynefinoedd 9A. Gweler https://jncc.gov.uk/our-work/habitats-regulations-reporting/ [Cyrchwyd 12 Ionawr 2026]. | Y Comisiwn Ewropeaidd. 2020. Habitats Directive reporting. Ar gael yn: https://ec.europa.eu/environment/nature/knowledge/rep_habitats/index_en.htm. [Cyrchwyd 20 Tachwedd 2020]. |
| **Etherau deuffenyl brominedig** | Grŵp o gyfansoddion o waith dyn sydd wedi cael eu defnyddio fel deunyddiau gwrthdan. Mae ganddynt effeithiau niweidiol posibl ar fodau dynol a bywyd dyfrol, yn bodoli mewn natur, ac yn cronni'n fiolegol, gan arwain at rai ohonynt yn cael eu dosbarthu fel llygryddion organig hirbarhaus. | Asiantaeth yr Amgylchedd. 2019. Polybrominated diphenyl ethers (PBDEs): sources, pathways and environmental data. Ar gael yn: https://consult.environment-agency.gov.uk/environment-and-business/challenges-and-choices/user_uploads/polybrominated-diphenyl-ethers-pressure-rbmp-2021.pdf. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Ewtroffeiddio** | Pan mae maethynnau, yn enwedig cyfansoddion nitrogen a/neu ffosfforws, yn cyfoethogi dŵr gan achosi twf cyflym o algâu a ffurfiau uwch o blanhigion i gynhyrchu aflonyddwch annymunol i gydbwysedd organebau sy'n bresennol yn y dŵr ac i ansawdd y dŵr dan sylw. | Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol (91/271/EEC) |
| **Ffenoleg** | Ffenoleg yw'r astudiaeth o newidiadau tymhorol mewn planhigion ac anifeiliaid o flwyddyn i flwyddyn, blodeuo planhigion, ymddangosiad pryfed a mudo adar, yn enwedig eu hamseru a'u perthynas â'r tywydd a'r hinsawdd. | Woodland Trust<br><br>What is phenology - Nature's Calendar |
| **Ffermio carbon** | Yn ymwneud â gweithredu arferion y gwyddys eu bod yn gwella'r gyfradd y caiff $CO_2$ ei dynnu o'r atmosffer a'i drawsnewid yn ddeunydd planhigion a/neu sylwedd organig pridd. | Carbon Cycle Institute. 2020. Carbon farming [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.carboncycle.org/carbon-farming/. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |
| **Geomorffolegol** | Yn disgrifio nodweddion ffisegol tirffurfiau a'u prosesau, sy'n dylanwadu ar strwythur cynefinoedd, llif dŵr, cludiant gwaddod, ac argaeledd maethynnau yn ecosystemau'r afonydd. | ScienceDirect. Geomorphology - an overview \| ScienceDirect Topics |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Geo-ofodol** | Yn ymwneud â safle cymharol pethau ar wyneb y Ddaear. | Collins Dictionary. 2020. Diffiniad 'geospatial'. Ar gael yn: https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/geospatial. [Cyrchwyd 12 Ionawr 2026]. |
| **Glaswelltir wedi'i wella** | Cynefin sy'n gorchuddio hanner arwyneb tir Cymru. Mae'n rhan o'r ecosystem tir fferm amgaeedig. Mae glaswelltiroedd wedi'u gwella wedi cael eu haddasu'n fawr neu amaethyddiaeth ddwys, ac yn nodweddiadol mae ganddynt lai o rywogaethau gydag amrywiaeth gyfyngedig o laswelltau a phlanhigion blodeuol. | SoNaRR 2020 |
| **Gorbori** | Caniatáu anifeiliaid i bori (ardal, megis porfa) hyd at achosi niwed i'r gorchudd llystyfiant. | Merriam-Webster. 2020. Diffiniad 'overgrazing'. Ar gael yn: https://www.merriam-webster.com/dictionary/overgrazing. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |
| **Gorddefnydd** | Defnyddio (rhywbeth, megis adnodd naturiol) i ormodedd. | Merriam-Webster. 2020. Diffiniad 'overexploitation'. Ar gael yn: https://www.merriam-webster.com/dictionary/overexploitation. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Gridiau clyfar** | Mae gridiau clyfar yn rhwydweithiau ynni sy'n gallu monitro llifau ynni ac yn addasu i newidiadau mewn cyflenwad ynni a’r galw amdano yn briodol. | Y Comisiwn Ewropeaidd. 2020. Smart grids and meters. Ar gael yn: https://ec.europa.eu/energy/topics/markets-and-consumers/smart-grids-and-meters/overview_en. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |
| **Gwasanaethau ecosystemau** | Y buddion mae pobl yn eu cael gan ecosystemau. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau darpariaeth fel bwyd a dŵr; rheoleiddio gwasanaethau fel rheoli llifogydd a chlefydau; gwasanaethau diwylliannol fel buddion ysbrydol, hamdden a diwylliannol; a gwasanaethau cefnogol fel cylchu maethynnau sy'n cynnal yr amodau ar gyfer bywyd ar y Ddaear. Mae'r cysyniad "nwyddau a gwasanaethau ecosystemau" yn gyfystyr â gwasanaethau ecosystemau. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Glossary Cambridge: UNEP-WCMC. Ar gael yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Gwasgfa arfordirol** | Mae gwasgfa arfordirol yn un math o golli cynefin arfordirol, lle y bo cynefin rhynglanwol yn cael ei golli drwy'r marc penllanw yn cael ei osod yn ei le gan amddiffyniad neu adeiledd (h.y. mae'r marc penllanw yn erbyn adeiledd caled fel morglawdd) a thrwy'r marc distyll yn symud tuag at y tir wrth ymateb i gynnydd yn lefel y môr. | Pontee N. 2011. Reappraising coastal squeeze: A case study from North-West England. Proceedings of the Institution of Civil Engineers: Maritime Engineering. [https://www.icevirtuallibrary.com/doi/abs/10.1680/maen.2011.164.3.127. [Cyrchwyd 7 Rhagfyr 2020].](https://www.icevirtuallibrary.com/doi/abs/10.1680/maen.2011.164.3.127)<br><br>Fel y dyfynnwyd yn: Oaten J, Brooks A. a Frost N. 2018. Coastal Squeeze Evidence and Monitoring Requirement Review. Rhif Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru: 307, 188 tudalen, Cyfoeth Naturiol Cymru, Caerdydd. |
| **Gwastraff trefol Awdurdodau Lleol** | Yn cynnwys gwastraff cartrefi a gwastraff nad yw'n wastraff cartrefi, sy'n cael ei gasglu a'i waredu gan awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys casgliadau rheolaidd o'r cartref, casgliadau ailgylchu penodol, casgliadau arbennig ar gyfer eitemau swmpus, gwastraff a dderbynnir mewn safleoedd amwynder dinesig a gwastraff a gesglir o ffynonellau nad ydynt yn gartrefi. | Rheoli gwastraff trefol awdurdodau lleol \| LLYW.CYMRU |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Gweddillion treuliad anaerobig** | Y darn sy'n weddill o sylwedd organig ar ôl triniaeth treulio anaerobig. Mae'n gyfoethog mewn maethynnau a nitrogen ac yn cael ei ddefnyddio'n aml fel gwrtaith organig mewn amaethyddiaeth. | Cymdeithas Bionwy Ewrop. 2015. Digestate Factsheet [ar-lein]. Ar gael yn: http://europeanbiogas.eu/wp-content/uploads/2015/07/Digestate-paper-final-08072015.pdf. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |
| **Gwersylla anghyfreithlon** | Gwersylla mewn lle nad yw'n faes gwersylla am gyfnod byr gan ddefnyddio cyfarpar minimol, sy'n anghyfreithlon mewn rhannau helaeth o'r DU. | Macmillan Dictionary. 2020. Diffiniad 'fly camping' [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.macmillandictionary.com/dictionary/british/fly-camping. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |
| **Gwerth gorau am arian** | Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r cynnyrch neu wasanaeth gorau sydd ar gael mewn perthynas â phris. | Cambridge Dictionary. 2020. Diffiniad 'best-buy'. Ar gael yn: https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/best-buy. [Cyrchwyd 20 Tachwedd 2020]. |
| **Gwobr y Faner Las** | Ecolabel a gydnabyddir yn rhyngwladol, a ddyfernir i draethau a marinas am lendid, diogelwch a chyfleusterau o ansawdd uchel. | Croeso Cymru. Traethau penigamp [ar-lein]. Ar gael o: https://www.visitwales.com/things-do/nature-and-landscapes/beaches/blue-flag-award-winning-beaches. [Cyrchwyd 12 Ionawr 2026]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Gwobr y Faner Werdd** | Partneriaeth ledled y DU, a gyflawnir yng Nghymru gan Cadwch Gymru'n Daclus gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r wobr yn cydnabod ac yn gwobrwyo'r parciau a'r mannau gwyrdd gorau yn y wlad. | Cadwch Gymru'n Daclus. 2025. *Y Faner Werdd* [ar-lein]. Ar gael o: Y Faner Werdd ar gyfer Parciau - Cadwch Gymru'n Daclus [Cyrchwyd 12 Ionawr 2026] |
| **Gwydnwch** | (ecosystemau) Gallu ecosystemau i ymdopi ag aflonyddwch, naill ai drwy ei wrthsefyll, gwella ar ei ôl, neu addasu iddo, wrth gadw eu gallu i gyflenwi gwasanaethau a buddion yn awr ac yn y dyfodol. | Cyfoeth Naturiol Cymru. 2016. Pennod 4: Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol: Asesiad o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Adroddiad Technegol. Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy. [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Haenu (Cefnfor neu thermol)** | Gellir meddwl am haeniad y cefnfor fel strwythur fertigol y golofn ddŵr yn ôl dwysedd. Mae dwysedd dŵr y môr yn cael ei reoli'n bennaf gan ei dymheredd a'i halwynedd, felly gall haenu fod yn gyfuniad o thermol (dŵr cynhesach uwchben dŵr oerach) a halwynog (dŵr mwy ffres uwchben dŵr halen). Yn syml, mae'r golofn ddŵr mewn unrhyw leoliad naill ai'n gymysg neu'n haenedig ac mae p'un a yw'n un neu'r llall yn cael effeithiau sylweddol ar yr ecosystem. | Dye, S. 2006. *Impacts of Climate Change on Shelf-Sea Stratification in Marine Climate Change Impacts Annual Report Card 2006* (Gol. Buckley PJ, Dye SR, Baxter JM). Summary Reports, MCCIP, Lowestoft [ar-lein] Ar gael o: www.mccip.org.uk. [Cyrchwyd ar 2 Awst 2016]. |
| **Lefelau Olsen-ffosfforws (Olsen-P)** | Mesur o faint o ffosfforws pridd sydd ar gael i blanhigion fel y'i mesurir gan ddefnyddio dull prawf Olsen-ffosfforws. | soil_Phosphorus.pdf<br><br>CEH Y DU<br><br>Henrys, P.A.; Keith, A.M.; Robinson, D.A.; Emmett, B.A. (2012). Model estimates of topsoil nutrients [Arolwg Cefn Gwlad]. Canolfan Ddata Gwybodaeth Amgylcheddol NERC. http://doi.org/10.5285/7055965b-7fe5-442b-902d-63193cbe001c |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Llesiant** | Cyflwr sy'n dibynnu ar gyd-destun a sefyllfa, sy'n cynnwys y deunydd sylfaenol ar gyfer bywyd da, rhyddid a dewis, iechyd a llesiant corfforol, cydberthnasau cymdeithasol da, diogelwch, tawelwch meddwl, a phrofiad ysbrydol. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report.Caergrawnt: UNEP-WCMC. |
| **Lliniaru (Newid yn yr hinsawdd)** | Mae lliniaru newid yn yr hinsawdd yn cyfeirio at gamau gweithredu neu weithgareddau sy'n cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr rhag mynd i mewn i'r atmosffer a/neu leihau eu lefelau yn yr atmosffer. Mae lliniaru yn cynnwys lleihau'r nwyon tŷ gwydr a allyrrir o brosesau cynhyrchu a defnyddio ynni (e.e.,, sy'n lleihau'r defnydd o danwydd ffosil), a defnydd tir, a dulliau i liniaru cynhesu, er enghraifft, gyda dalfeydd carbon sy'n tynnu allyriadau o'r atmosffer drwy ddefnydd tir neu fecanweithiau eraill (gan gynnwys rhai artiffisial) | IPCC Frequently asked questions. Ar gael yn: IPCC_AR6_WGIII_FAQ_Chapter_01.pdf |
| **Llonyddwch** | Cyflwr diofid a nodweddir gan heddwch a thawelwch a lle nad oes unrhyw aflonyddu diangen. Gall hyn gyfeirio at gyflwr meddwl neu amgylchedd penodol. Gellir mesur llonyddwch naill ai yn nhermau absenoldeb ymyriadau diangen neu drwy gydbwyso ffactorau cadarnhaol a negyddol. Mae'r rhain yn cynnwys presenoldeb natur, teimlo'n ddiogel, amgylchedd sy'n edrych yn dda, ac atmosffer ymlaciol. | Llywodraeth Cymru. 2018. Cynllun gweithredu sŵn a seinwedd 2018 i 2023. Ar gael yn: https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-swn-seinwedd-2018-i-2023. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Llwybrau Crynoadau Cynrychioladol (RCPs)** | Senarios newid yn yr hinsawdd sy'n cynnwys cyfres amser o allyriadau a chrynodiadau o'r gyfres lawn o nwyon tŷ gwydr ac erosolau a nwyon sy'n weithredol yn gemegol, yn ogystal â defnydd tir/gorchudd tir. Mae'r gair cynrychioladol yn arwydd bod pob RCP yn darparu dim ond un o lawer o senarios posibl a fyddai'n arwain at y nodweddion penodol o ran newid ymbelydrol. Mae'r term llwybr yn pwysleisio bod nid yn unig y lefelau crynoadau hirdymor o ddiddordeb, ond hefyd y llwybr a gymerwyd dros amser i gyrraedd y canlyniad hwnnw | IPCC. Canolfan Dosbarthu Data.<br><br>https://www.ipcc-data.org/guidelines/pages/glossary/glossary_r.html |
| **Llwyth critigol** | Trothwyon ar gyfer dyddodiad llygryddion sy'n achosi asideiddio a/neu ewtroffigedd a all achosi effeithiau sylweddol niweidiol ar gynefinoedd sensitif y DU os nad ydynt yn cadw oddi fewn iddynt. | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. 2015. Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur Biodiversity indicators. B5a Air pollution, rhan o B5 Pressure from pollution. Pressure indicator [ar-lein]. Ar gael yn: https://jncc.gov.uk/our-work/ukbi-b5a-air-pollution/. [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
| --- | --- | --- |
| **Llygredd** | (llygrydd hefyd) Y cyflwyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol, o ganlyniad i weithgaredd dynol, o sylweddau neu wres i'r aer, dŵr neu dir sydd: (i) yn gallu bod yn niweidiol i iechyd dynol neu ansawdd ecosystemau dyfrol neu ecosystemau daearol sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ecosystemau dyfrol; (ii) yn achosi difrod i eiddo materol; neu (iii) yn amharu neu ymyrryd gydag amwynderau a defnyddiau cyfreithlon eraill o'r amgylchedd. Gweler Ysgogwyr newid. | Cyfoeth Naturiol Cymru. 2015. Atodiad Trosolwg Cynllun Rheoli Basn Afon. |
| **Llygredd gwasgaredig** | Llygredd sy'n deillio o ffynonellau gwasgaredig sy'n sylweddol yn gyfunol ond mae'n anodd priodoli effeithiau iddynt yn unigol. | Cyfoeth Naturiol Cymru. 2015. Atodiad Trosolwg Cynllun Rheoli Basn Afon. |
| **Llynnoedd marl** | Mae llynnoedd marl i'w cael mewn ardaloedd calchfaen ac maent yn hynod glir, gydag amrywiaeth cyfoethog o blanhigion gan gynnwys rhawn yr ebol (math o wymon dŵr croyw troellog wedi'i orchuddio â chalch ac sy'n teimlo'n grensiog). | The Wildlife Trusts. Ar gael o: Lakes \| The Wildlife Trusts [Cyrchwyd ar 5 Awst 2025] |
| **Man glas** | Dŵr gweladwy. Mae parciau ar lan harbwr, afonydd, pyllau, llynnoedd, porthladdoedd, camlesi, ffynhonnau, ac ati oll yn cael eu cyfri fel mannau glas. | Tang K. 2017. Urban Design and Public Health – What is Blue Space? [ar-lein] Prifysgol Newcastle. Ar gael yn: https://2016-2017.nclurbandesign.org/2017/01/urban-design-public-health-blue-space/. [Cyrchwyd: 24 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Marwolaethau wedi'u haddasu ar gyfer hyd oes** | Y gostyngiad cyffredinol mewn disgwyliad oes, nid, marwolaethau uniongyrchol, gwirioneddol. Fel arfer mewn perthynas â llygredd aer. | Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). National life tables – life expectancy in the UK: 2022 to 2024. Ar gael o: National life tables — life expectation in the UK - Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| **Mater gronynnol** | (a elwir hefyd yn gronynnau neu lygredd gronynnol) Mae mater gronynnol yn yr aer wedi'i wneud o gasgliad o ddeunyddiau solid a/neu hylifol o feintiau amrywiol. Mae'n cynnwys cyfansoddion cynradd a ryddheir yn uniongyrchol (o'r ffynhonnell) i'r atmosffer, a chyfansoddion eilaidd, a ffurfir yn yr atmosffer yn sgil adweithiau cemegol. Gelwir mater gronynnol sy'n cyfateb i neu'n llai na 10μm mewn diamedr yn $PM_{10}$; gelwir mater gronynnol sy'n cyfateb i neu'n llai na 2.5μm mewn diamedr yn $PM_{2.5}$. | Grŵp Arbenigol Ansawdd Aer. 2005. Particulate Matter in the United Kingdom: Summary. DEFRA, Llundain. Ar gael yn: https://uk-air.defra.gov.uk/assets/documents/reports/aqeg/pm-summary.pdf. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |
| **Matrics ucheldir ehangach** | Fe'i defnyddir fel math o gynefin o fewn ecosystem mynydd, gweundir a rhos yn SoNaRr. Mae'n cynnwys ardaloedd o redyn a glaswelltiroedd lled-naturiol, er enghraifft. | SoNaRR |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** | Mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd i nodi'r ardaloedd bach hynny lle ceir y crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'n Ystadegyn Cenedlaethol ac fe'i cynhyrchir gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru. | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 \| LLYW.CYMRU |
| **Newid o ddarparu cynhyrchion i ddarparu gwasanaethau** | Diwydiant yn defnyddio ei gynhyrchion i werthu “canlyniad fel gwasanaeth” yn hytrach na gwerthiant untro. | K3 Syspro. 2023. Jargon buster: Servitization explained. Ar gael yn: Jargon Buster: Servitization Explained \| NexSys. [Cyrchwyd 12 Ionawr 2026]. |
| **Nodweddion Atodiad I (cynefinoedd a rhywogaethau)** | Cynefinoedd a rhywogaethau yw'r rhain a restrir yn Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt), 1992. Y Gyfarwyddeb yw'r modd y mae'r Undeb Ewropeaidd yn bodloni ei rwymedigaethau o dan Gonfensiwn Bern. Mae'r Gyfarwyddeb yn gymwys i'r DU ac i'w Thiriogaeth Dramor Gibraltar ac fe'i trosir i ddeddfwriaeth y DU drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd (Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 9A a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 6A). | FAQs - ukhab a https://jncc.gov.uk/our-work/habitats-regulations-reporting/ [Cyrchwyd 12 Ionawr 2026]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Nwyon tŷ gwydr** | Grŵp o nwyon sy'n cyfrannu un ai'n uniongyrchol at y newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys cynhesu byd-eang) oherwydd yr effaith bositif y maent yn ei chael ar y cydbwysedd ymbelydrol, neu'n anuniongyrchol gan y gallant achosi cynnydd mewn crynodiadau osôn troposfferig ac mae hyn yn cynyddu newid yn y cydbwysedd ymbelydrol (cynhesu'r atmosffer). | Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol. 2016. Overview of Greenhouse Gases [Ar-lein]. Ar gael yn: https://naei.beis.gov.uk/overview/ghg-overview. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |
| **Ôl troed carbon** | Mae'n mesur cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd wedi'u hachosi yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan unigolyn, sefydliad, digwyddiad neu gynnyrch. | Yr Ymddiriedolaeth Garbon. 2018. Carbon footprinting guide [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.carbontrust.com/resources/carbon-footprinting-guide. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |
| **Ôl troed ecolegol** | Dangosydd o gyfanswm y baich amgylcheddol mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned. Mae'n cynrychioli arwynebedd y tir sydd ei angen i ddarparu deunyddiau craidd, ynni a bwyd, yn ogystal ag amsugno llygredd a gwastraff a grëir, a chaiff ei fesur mewn hectarau byd-eang. | Sefydliad Amgylcheddol Stockholm a GHD. 2015. Ecological and Carbon Footprints of Wales. Update to 2011. Gorffennaf 2015. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Ôl troed materol** | Priodoli echdyniad deunyddiau'n fyd-eang i alw domestig terfynol gwlad. Cyfanswm yr ôl troed materol yw swm yr ôl troed materol ar gyfer biomas, tanwyddau ffosil, mwynau metel a mwynau nad ydynt yn fetel. | Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig. 2018. Metadata Nod 8 Targed 8.4 y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Ar gael yn: [https://unstats.un.org/sdgs/metadata/files/Metadata-08-04-01.pdf.](https://unstats.un.org/sdgs/metadata/files/Metadata-08-04-01.pdf) [Cyrchwyd: 30 Tachwedd 2020]. |
| **Osôn** | Nid yw osôn ($O_3$) yn cael ei ryddhau'n uniongyrchol o unrhyw ffynhonnell o waith dyn mewn unrhyw symiau sylweddol. Yn yr atmosffer is, mae $O_3$ yn cael ei ffurfio'n bennaf gan gyfres o adweithiau cemegol cymhleth sy'n cael eu hysgogi gan olau haul. Gellir crynhoi'r adweithiau hyn fel y broses o ocsidio cyfansoddion organig anweddol (VOCs) a gychwynnir gan olau'r haul ym mhresenoldeb ocsidiau nitrogen (NOx). | Ansawdd Aer Cymru. 2020. Llygryddion: Osôn a chyfansoddion organig anweddol. Gwefan Fforwm Ansawdd Aer Cymru. Ar gael yn: [https://airquality.gov.wales/about-air-quality/pollutants.](https://airquality.gov.wales/about-air-quality/pollutants) [Cyrchwyd 12 Ionawr 2026]. |
| **Paneli ffotofoltäig** | A elwir hefyd yn baneli trydan solar. Maent yn casglu ynni'r haul ac yn ei droi'n drydan. | Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. 2020. Solar panels [ar-lein]. Ar gael yn: [https://energysavingtrust.org.uk/advice/solar-panels/.](https://energysavingtrust.org.uk/advice/solar-panels/) [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Peillio** | Proses yn ystod cam rhywiol atgenhedlu rhai planhigion a achosir trwy symud paill. Yng nghyd-destun gwasanaethau ecosystemau, mae peillio yn gyffredinol yn cyfeirio at beillio a gynorthwyir gan anifeiliaid, megis yr hyn a wneir gan wenyn, yn hytrach na pheillio drwy'r gwynt. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Glossary Cambridge: UNEP-WCMC. Ar gael yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |
| **Peillwyr** | Rhywbeth, megis pryf, sy'n symud paill o un planhigyn neu ran o blanhigyn i un arall. | Cambridge Dictionary. 2020. Diffiniad 'pollinator'. Ar gael yn: POLLINATOR \| English meaning - Cambridge Dictionary [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |
| **Peirianneg werdd** | Dylunio, masnacheiddio a defnyddio prosesau a chynhyrchion mewn ffordd sy'n lleihau llygredd, yn hyrwyddo cynaliadwyedd, ac yn lleiafu'r risg i iechyd dynol a'r amgylchedd heb aberthu hyfywedd ac effeithlonrwydd economaidd. | Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Unol Daleithiau. 2019. About Green Engineering [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.epa.gov/green-engineering/about-green-engineering. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Perthnasau gwyllt cnydau** | Mae glaswelltiroedd lled-naturiol o bwys mawr wrth warchod Perthnasau Gwyllt Cnydau sy'n adnodd genetig pwysig ar gyfer bridio cnydau a ddefnyddir, er enghraifft, i wella ymwrthedd i blâu a chlefydau, cynyddu goddefedd i straen amgylcheddol, a gwella cynnyrch. Mae rhywogaethau o'r fath yn fwyfwy pwysig wrth i newid hinsawdd gynyddu'r angen i gnydau allu gwrthsefyll amodau amgylcheddol eithafol. | SoNaRR 2025 |
| **Polisi Adnoddau Naturiol** | Dogfen sy'n gosod polisïau penodol a chyffredinol Gweinidogion Cymru ar gyfer cyfrannu at gyflawni rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn defnyddio'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol fel y brif sail dystiolaeth. | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| **Pot mêl** | Dymunol iawn neu boblogaidd iawn. | Collins Dictionary. 2020. Diffiniad 'honeypot'. Ar gael yn: https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/honeypot [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Pwysau** | Pwysau sy'n deillio o weithgareddau dynol sy'n arwain at newidiadau yn sefyllfa'r amgylchedd. Gweler Pwysau SoNaRR | Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig (2025) *Driver-Pressure-State-Impact-Response Framework (DPSIR) \| Land & Water \| Food and Agriculture Organization of the United Nations \| Land & Water \| Food and Agriculture Organization of the United Nations*. Ar gael yn: https://www.fao.org/land-water/land/land-governance/land-resources-planning-toolbox/category/details/en/c/1026561/ ( Cyrchwyd: 20 Mehefin 2024). |
| **Ramsar** | Ardal o wlyptir a ddynodwyd am ei gwerth cadwraethol o dan Gonfensiwn 1971 ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol, yn enwedig fel Cynefin Adar Dŵr. Mae Confensiwn Ramsar yn ceisio hyrwyddo cadwraeth gwlyptiroedd rhestredig a'u defnyddio'n ddoeth. | JNCC. Convention on Wetlands \| Advisor to Government on Nature Conservation \| JNCC |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Reen** | Ffos, yn enwedig sianel ddraenio | Collins. 2021. Definition of reen. Ar gael o: https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/reen [Cyrchwyd ar 26 Mawrth 2021] |
| **Riffiau biogenig** | Cynefinoedd a grëwyd gan yr anifeiliaid eu hunain. Yn cynnwys riffiau a grëwyd gan gwrelau, llyngyr a chregyn gleision. | JNCC. 2014. *Annex 1 Reefs [ar-lein]*. Ar gael o: http://jncc.defra.gov.uk/page-1448. [Cyrchwyd 14 Gorffennaf 2016] |
| **Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy** | Defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn ehangu gwydnwch ecosystemau a'r buddion maent yn eu darparu, ac, wrth wneud hynny, sy’n diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, ac sy’n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a osodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyfeirir ato hefyd fel rheolaeth gynaliadwy. | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| **Rheoliad(au)** | (o safbwynt cyfreithiol, nid yw'r un peth â rheoleiddio prosesau a gwasanaethau) Mae "rheoliad" yn ddeddf ddeddfwriaethol rwymedig. Mae'n rhaid iddo gael ei gymhwyso yn ei gyfanrwydd ledled Cymru, y DU neu'r Undeb Ewropeaidd (gan ddibynnu ar y raddfa y mae'r rheoliad yn gymwys iddi). | Europa EU. 2016. European Union – Regulations, Directives and other acts. Ar gael yn: EU regulation Definition \| Legal Glossary \| LexisNexis. [Cyrchwyd 12 Ionawr 2026]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Rheoli Adnoddau Naturiol** | Fe'i gelwir hefyd yn NRM. Dull o gynnal neu adfer cyfansoddiad, strwythur, swyddogaeth, a gallu ecosystemau naturiol ac addasedig i ddarparu gwasanaethau er mwyn cyflawni cynaliadwyedd. Yn seiliedig ar weledigaeth addasol ar gyfer cyflyrau yn y dyfodol gan ystyried ecoleg, economeg gymdeithasol ac anghenion diwylliannol. | NEA y DU. 2011. *National Ecosystem Assessment – Technical Report.* Caergrawnt: UNEP-WCMC. |
| **Rheoli addasol** | Proses systematig ar gyfer gwella polisïau ac arferion rheoli yn barhaus drwy ddysgu o ganlyniadau polisïau ac arferion a ddefnyddiwyd o'r blaen. Rheoli mewn modd addasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, lle bo'n briodol, newid camau gweithredu; | NEA y DU. 2011. *UK National Ecosystem Assessment – Technical Report.* Caergrawnt: UNEP-WCMC.<br>A<br>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| **Rhywogaethau estron goresgynnol** | Planhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau y mae eu cyflwyniad a/neu ledaeniad y tu allan i'w gwasgariad naturiol presennol neu yn y gorffennol yn peri risg i fioamrywiaeth neu'n gallu cael canlyniadau negyddol eraill na ellir eu rhagweld. | Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop. 2012. Invasive alien species indicators in Europe. A review of streamlining European biodiversity (SEBI) Indicator 10. Adroddiad Technegol Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop rhif 15/2012. |
| **Safleoedd gwarchodedig** | (neu ardaloedd gwarchodedig) Ardaloedd sydd wedi'u dynodi o dan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a/neu'r DU ar gyfer nodweddion biolegol neu ddaearegol penodol. | Asiantaeth yr Amgylchedd. 2015. Water for life and livelihoods. River Basin Management Plans Glossary. DEFRA. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Sathru** | (ar gaeau a glannau afonydd) Lle mae da byw yn dinistrio strwythur pridd, gan achosi cywasgu a dinistrio rhannau o gae y maent yn ei droedio amlaf. | Whitmore AP. 2016. *Impact of livestock on soil. Sustainable Animal Production: Workshops, Discussions, Online resources [ar-lein].* Ar gael o: Livestock Farming and the Environment : proceedings of Workshop 4 on Sustainable Animal Production, delir yn Hannover, Medi 28, 2000 [Cyrchwyd ar 12 Ionawr 2026]. |
| **Seicoffisiolegol** | Yn cyfuno neu'n cynnwys prosesau meddyliol neu gorfforol – yn ymwneud â seicoleg ffisiolegol. | Merriam-Webster. 2020. Diffiniad 'psychophysiological' . Ar gael yn: https://www.merriam-webster.com/dictionary/psychophysiological [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2020]. |
| **Seilwaith gwyrdd / mannau gwyrdd** | Mannau naturiol a lled-naturiol gwyrdd a glas o fewn ac o amgylch ardaloedd trefol. Mae elfennau cydrannol yn cynnwys parciau, gerddi preifat, caeau amaethyddol, gwrychoedd, coed, coetir, toeau gwyrdd, waliau gwyrdd, camlesi, afonydd a phyllau. Mae'r term yn cynnwys yr holl dir sy'n cynnwys y nodweddion hyn, waeth pwy sydd berchen ar y tir a beth yw ei gyflwr neu ei faint. | Y Sefydliad Tirwedd 2013. Green Infrastructure: An integrated approach to land use. Landscape Institute Position Statement. Llundain. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Selio Pridd** | Mae selio pridd yn golygu gorchuddio parhaol ardal o dir a'i phridd gan ddeunydd artiffisial anathraidd (e.e. asffalt a choncrit), er enghraifft drwy godi adeiladau a ffyrdd. Dim ond rhan o ardal anheddiad sy'n cael ei selio mewn gwirionedd, gan nad yw gerddi, parciau trefol a mannau gwyrdd eraill yn cael eu gorchuddio ag wyneb anathraidd. | Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop. What is soil sealing and why is it important to monitor it? \| Frequently asked questions (FAQs) \| European Environment Agency (EEA) [Cyrchwyd 12 Ionawr 2026]. |
| **Statws** | (e.e. statws ecolegol/biolegol/cadwraeth/cemegol) Ffordd benodol o ddosbarthu cyflwr amgylcheddol. Mae statws fel arfer yn cael ei fanylu o fewn cyfarwyddebau yn erbyn safonau amgylcheddol penodol ar gyfer y gyfarwyddeb honno a chan ddefnyddio methodolegau penodol, e.e. y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. | Asiantaeth yr Amgylchedd. 2015. Water for life and livelihoods. River Basin Management Plans Glossary. DEFRA. |
| **Symbiosis diwydiannol** | Ffurf ar froceru i ddod a chwmnïau at ei gilydd mewn cydweithrediadau arloesol i ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio gwastraff un cwmni fel deunydd crai ar gyfer cwmni arall. | Llwyfan Rhanddeiliaid Economi Gylchol Ewrop. 2020. Sharing Materials to Minimize Waste: Industrial Symbiosis Project [ar-lein] Ar gael yn https://circulareconomy.europa.eu/platform/en/good-practices/sharing-materials-minimize-waste-industrial-symbiosis-project. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Systemau draenio cynaliadwy** | Mae systemau draenio cynaliadwy wedi'u cynllunio i ddynwared draenio naturiol drwy reoli dŵr wyneb ffo mor agos i'r ffynhonnell â phosibl. | Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS). Ar gael yn: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/advice-for-developers/sustainable-drainage-systems-suds/?lang=cy. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |
| **Tacsonomig** | Yn ymwneud â system ar gyfer enwi a threfnu pethau, yn enwedig planhigion ac anifeiliaid, yn grwpiau sydd â nodweddion tebyg. | Gwasg Prifysgol Caergrawnt. 2020. Diffiniad 'taxonomic'. Ar gael yn: https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/taxonomic. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |
| **Targedau** | Targed yw mynegiant clir o flaenoriaeth polisi, sy'n nodi'n union yr hyn y mae'r llywodraeth am iddo gael ei wneud ac erbyn pryd. Mae targedau yn hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol dros gyflenwi beth sydd angen digwydd, fel y gallent gynllunio, monitro a chyflenwi'r newid penodol. | Parliament 2010. Targets as a policy tool: key issues for the 2010 Parliament [ar-lein].Ar gael yn: http://www.parliament.uk/business/publications/research/key-issues-for-the-new-parliament/value-for-money-in-public-services/targets-as-a-policy-tool/. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Targedau Bioamrywiaeth Aichi** | Set o dargedau gan y Cenhedloedd Unedig sy'n gydnabyddedig yn fyd-eang gyda'r nod o atal colled bioamrywiaeth i sicrhau bod ecosystemau yn wydn ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol. | Ysgrifenyddiaeth y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. 2010. Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth 2011–2020 a Thargedau Aichi. “Living in Harmony with Nature”. Quebec: CBD ac UNEP. |
| **Tipio anghyfreithlon** | Cael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon ar dir nad oes ganddo drwydded i'w dderbyn. | Keep Britain Tidy. 2020. Fly-tipping and the law [ar-lein]. Ar gael yn https://www.keepbritaintidy.org/faqs/advice/fly-tipping-and-law. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Tir halogedig** | O dan adran 78A (2) Rhan 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd (1990), diffinnir tir halogedig fel: “Unrhyw dir sy'n ymddangos i'r awdurdod lleol y mae wedi'i leoli yn ei ardal, ei fod, oherwydd sylweddau sydd ynddo, arno neu oddi tano, yn y fath gyflwr fel bod -<br>(a) niwed sylweddol yn cael ei achosi neu fod posibilrwydd sylweddol iddo achosi hynny; neu fod<br>(b) llygredd mewn dyfroedd rheoledig yn cael ei achosi neu fod posibilrwydd sylweddol y bydd llygredd o’r fath yn cael ei achosi;"<br><br>Defnyddir “tir halogedig” i olygu tir sy'n bodloni diffiniad Rhan 2A o dir halogedig. Defnyddir termau eraill, fel “tir yr effeithir arno gan halogiad” neu “halogiad tir”, i ddisgrifio'r categorïau llawer ehangach o dir lle mae halogyddion yn bresennol ond fel arfer nid ar lefel ddigonol o risg i fod yn dir halogedig. | CNC (2016) *Cyflwr Tir Halogedig yng Nghymru*. Caerdydd: Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-the-environment-reports/the-state-of-contaminated-land-in-wales/?lang=en (Cyrchwyd: 18 Mawrth 2024 |
| **Trothwy** | (neu bwynt tyngedfennol) Y pwynt lle gall newid bach mewn amodau amgylcheddol achosi newid cyflym mewn ecosystem. Dyma'r pwynt lle mae newid yn debygol o fod yn anghildroadwy. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report.Caergrawnt: UNEP-WCMC. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Trwytholch / Trwytholchi** | Hylif sydd wedi ymdreiddio drwy wastraff solid mewn safle tirlenwi ac wedi echdynnu deunyddiau hydawdd sydd wedi'u hydoddi neu sydd mewn daliant yn y broses. Trwytholchi yw'r broses o hyn yn digwydd. | Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop. 2004. EEA Glossary. Ar gael yn: https://www.eea.europa.eu/help/glossary/eea-glossary/landfill-leachate#:~:text=Liquid%20that%20has%20seeped%20through,suspended%20materials%20in%20the%20process. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |
| **Trydydd sector** | Enw arall ar y sector gwirfoddol. Y rhan o'r economi sy'n cynnwys sefydliadau nid-er-elw, yn wahanol i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. | Collins Dictionary, 2020. Diffiniad 'third sector'. Ar gael yn: https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/third-sector. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |
| **Tueddiadau** | Cyfeiriad cyffredinol y mae rhywbeth yn datblygu neu'n newid iddo. Yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, mae hyn yn cyfeirio at newidiadau (cadarnhaol neu negyddol) a welir dros gyfnodau o amser penodol mewn perthynas ag ehangder a chyflwr. | Gwasg Prifysgol Rhydychen 2016. Diffiniad 'trend' Oxford Dictionary [ar-lein]. Ar gael yn: http://www.oxforddictionaries.com/definition/english/trend. [Cyrchwyd 24 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Y gyfradd adennill** | Yr hyn a enillir neu a gollir gan fuddsoddiad dros gyfnod penodol o amser. | Corporate Finance Institute. 2020. Rate of return. Ar gael yn: https://corporatefinanceinstitute.com/resources/knowledge/finance/rate-of-return-guide/. [Cyrchwyd 26 Tachwedd 2020]. |
| **Y newid yn yr hinsawdd** | Newid yn sefyllfa'r hinsawdd a ellir ei nodi gan y newidiadau yng nghymedr a/neu amrywioldeb ei phriodweddau, ac sy'n parhau am gyfnod estynedig, degawdau neu hwyach fel arfer. | Allwood JM, Bosetti V, Dubash NK, Gómez-Echeverri L a von Stechow C. 2014. Glossary. Yn: Panel Rhynglywodraethol ar yr Newid yn yr Hinsawdd. 2014. Climate Change, 2014: Mitigation of Climate Change. Contribution of Working Group III to the Fifth Assessment Report of the Intergovernmental Panel on Climate Change. Gwasg Prifysgol Caergrawnt, Caergrawnt, y Deyrnas Unedig ac Efrog Newydd, Efrog Newydd, UDA. |
| **Y rhyngrwyd pethau** | Cysylltiadau rhwng gwrthrychau o bob math drwy'r rhyngrwyd sy'n eu galluogi i gyfathrebu â phobl a chyda'i gilydd. | Macmillan Dictionary. 2020. Diffiniad 'internet of things' [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.macmillandictionary.com/dictionary/british/internet-of-things. [Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020]. |

| Term | Diffiniad | Ffynhonnell y diffiniad |
|---|---|---|
| **Ymateb** | (ymatebion rheoli) Gweithredoedd dynol, gan gynnwys polisïau, strategaethau ac ymyriadau, i fynd i'r afael â materion, anghenion, cyfleoedd neu broblemau penodol. Gall y rhain fod yn gyfreithiol, yn dechnegol, yn sefydliadol, yn economaidd neu'n ymddygiadol, gan weithredu ar raddfeydd amser a gofodol amrywiol. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Caergrawnt: UNEP-WCMC. |
| **Ymyriad** | Gweler 'Ymateb'. | Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. 2011. UK National Ecosystem Assessment – Technical Report. Glossary Cambridge: UNEP-WCMC. Ar gael yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx. [Cyrchwyd 27 Tachwedd 2020]. |
| **Ynys wres** | (ac effaith ynys wres) Y tueddiad i ardaloedd trefol fod yn boethach nag ardaloedd gwledig â llystyfiant cyfagos, yn enwedig yn y nos mewn amodau gwynt isel. Achosir hyn gan wynebau caled yn amsugno gwres yn ystod y dydd a'i ryddhau adeg y machlud – caiff ei waethygu lle mae diffyg llystyfiant i oeri'r atmosffer lleol drwy anwedd-drydarthiad. | Landsberg H. 1981. The Urban Climate. Llundain: Academic Press. |

# Diffiniadau o ffactorau ysgogol a phwysau yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025

Yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, rydym yn defnyddio'r pum prif ffactor ysgogol uniongyrchol a ddefnyddir gan Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. Mae Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU yn diffinio ffactor ysgogol uniongyrchol fel rhywbeth “sy'n dylanwadu'n ddiamwys ar brosesau ecosystemau, ac felly gellir ei adnabod a'i fesur i wahanol raddau o gywirdeb” (Tabl 5).

Mae dylanwad ffactorau ysgogol uniongyrchol ar brosesau ecosystemau’n amlygu ei hun ar ffurf pwysau penodol.  Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop yn diffinio pwysau amgylcheddol fel “pwysau sy’n deillio o weithgareddau dynol sy’n achosi newidiadau yng nghyflwr yr amgylchedd” (Thesawrws Amgylcheddol Amlieithog Cyffredinol (GMET), 2025).  Mae'r pwysau a roddir gan ffactorau ysgogol uniongyrchol yn amlygu eu hunain fel newidiadau yng nghyflwr yr ecosystem a'r adnoddau naturiol (Cenhedloedd Unedig, 2021) (Tabl 6).

Nid yw disgrifio rhywbeth fel pwysau ynddo’i hun yn golygu nad yw'n ddilys gwneud y gweithgarwch hwnnw, dim ond y bydd yn effeithio ar gyflwr ecosystemau (lleol) ac mae angen cydnabod hyn a lliniaru unrhyw effeithiau.

## Tabl 5 Ysgogwyr newid Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025

| Ffactor ysgogol uniongyrchol | Diffiniad | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Newid hinsawdd | Newidiadau hirdymor mewn tymereddau a phatrymau tywydd. Gall newidiadau o'r fath fod yn naturiol, oherwydd newidiadau yng ngweithgarwch yr haul neu echdoriadau folcanig mawr. Ers yr 1800au, gweithgareddau dynol fu'r prif ffactor sy'n sbarduno newid hinsawdd, yn bennaf oherwydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o losgi tanwyddau ffosil fel glo, olew a nwy. | What is climate change? \| Cenhedloedd Unedig |
| Rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau | Organebau a all achosi niwed i iechyd a llesiant pobl, rhywogaethau nad ydynt yn ddynol ac ecosystemau. Gall y rhain fod yn organebau brodorol neu anfrodorol. | Yn seiliedig ar y diffiniadau o bwysau isod. |
| Defnydd uniongyrchol | Defnyddio adnoddau naturiol, gan gynnwys organebau byw, ar gyfer bwyd a deunyddiau. Mae'r pwysau a achosir yn deillio o'r ffordd y cânt eu tynnu ar gyfer ein defnydd yn ogystal ag effaith uniongyrchol tynnu a lleihau adnodd naturiol adnewyddadwy neu anadnewyddadwy. | Yn seiliedig ar y diffiniadau o bwysau isod. |
| Llygredd | Halogion a phethau eraill sy'n achosi niwsans yn yr amgylchedd a all niweidio iechyd pobl, organebau byw neu'r amgylchedd naturiol neu adeiledig. Gall yr halogion hyn fod ar ffurf sylweddau (e.e. cemegion) neu ynni (e.e. golau, sŵn, ymbelydredd, gwres). Gall yr halogion hyn newid priodweddau biolegol, thermol, cemegol, ffisegol neu ymbelydrol y cyfrwng y maent ynddo (e.e. dŵr, aer, tir) yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn ffordd a all greu perygl. Gall y rhain gael eu cynhyrchu gan brosesau naturiol a gweithgareddau dynol. | Addaswyd o *Thesawrws Amgylcheddol Amlieithog Cyffredinol* GMET (2025). Ar gael yn: https://www.eionet.europa.eu/gemet/en/themes/ (cyrchwyd: 13 Ionawr 2026).<br><br>a chynllun corfforaethol CNC. |

| Ffactor ysgogol uniongyrchol | Diffiniad | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Rheoli a newid y ffordd y caiff y tir a'r môr eu defnyddio | Mae newid defnydd tir yn cyfeirio at newid yn y defnydd o dir neu ddulliau rheoli tir gan bobl. Yng Nghymru, gall hyn gynnwys arferion rheoli sy'n achosi newidiadau yn y defnydd o dir a gorchudd tir. Mae enghreifftiau'n cynnwys dwysáu amaethyddiaeth, gan drosi tir o laswelltir lled-naturiol yn dir fferm caeedig; adeiladu aneddiadau dynol, gan drosi tir i newid yr ecosystem i un drefol; neu goedwigo, gan drosi tir i'w ddefnyddio ar gyfer coedwigaeth a newid y gorchudd tir i fod yn ecosystem coetir.<br><br>Mae newid defnydd y môr yn cyfeirio at newid yn y defnydd neu'r rheolaeth o'r môr gan bobl. Yng Nghymru, gall hyn gynnwys adeiladu seilwaith yn yr amgylchedd morol a all arwain at golli neu ddirywio cynefinoedd; adeiladu amddiffynfeydd arfordirol a allai arwain at wasgfa arfordirol; a gweithgareddau hamdden heb eu rheoli a all achosi aflonyddwch ac effeithiau ffisegol. | Addaswyd o gyfleuster chwilio rhestr termau'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) (defnydd tir)<br><br>(mae'r frawddeg gyntaf o'r IPCC, yn dilyn brawddegau a ddrafftiwyd gan dîm yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol) |

## Tabl 6 Pwysau Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025

| Enw'r pwysau | Diffiniad | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Mynediad, chwaraeon a gweithgareddau hamdden (newid y ffordd y caiff y tir a'r môr eu defnyddio) | Gall defnyddio adnoddau naturiol ac ecosystemau gan fodau dynol ar gyfer chwaraeon, twristiaeth a hamdden niweidio cynefinoedd trwy ddifrod ffisegol a llygredd ar gyfradd neu raddfa nad oes modd adfer yn ei sgil yn naturiol. | Tîm yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| Coedwigo (newid y ffordd y caiff y tir a'r môr eu defnyddio) | Plannu coedwigoedd ar dir nad yw wedi cynnwys coedwigoedd yn hanesyddol.<br><br>Sylwer: ystyrir coedwigo hanesyddol o fewn cyflwr yr ecosystem, yn hytrach na'i ddosbarthu fel pwysau. | LinkClick.aspx (unep-wcmc.org) |
| Dwysáu amaethyddol (newid y ffordd y caiff y tir a'r môr eu defnyddio) | Y broses o gynyddu cyfalaf, llafur a mewnbynnau fesul uned o arwynebedd tir, gyda'r bwriad o gynyddu cynhyrchiant amaethyddol. Gall mewnbynnau gynnwys gwrteithiau, agrogemegion ar gyfer atal plâu, a mecaneiddio. Nid yw'r pwysau hyn yn cyfeirio at sefyllfaoedd pan fo allbwn yn cynyddu heb fewnbynnau ychwanegol.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am or-bori, lefelau uwch o stocio, a'r defnydd anghynaliadwy o briddoedd amaethyddol, gweler 'Defnydd uniongyrchol: gor-ddefnyddio adnoddau naturiol adnewyddadwy'. | Addaswyd o Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 a Louise E. Jackson, ...K. Bawa, yn Encyclopedia of Biodiversity (ail argraffiad), 2013 |

| Enw’r pwysau | Diffiniad | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Llygredd aer | Halogion yn yr atmosffer a all niweidio iechyd pobl, organebau byw neu'r amgylchedd naturiol neu adeiledig neu fod yn niwsans (e.e. arogl annymunol). Gall yr halogion hyn newid priodweddau biolegol, thermol, cemegol, ffisegol neu ymbelydrol yr awyr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn ffordd a all greu perygl. Gellir rhannu'r sylweddau hyn yn llygryddion cynradd, sydd ag effaith niweidiol uniongyrchol, a llygryddion eilaidd sydd ag effaith niweidiol anuniongyrchol. | Addaswyd o *Thesawrws Amgylcheddol Amlieithog Cyffredinol* GMET (2025). Ar gael yn: https://www.eionet.europa.eu/gemet/en/themes/ (cyrchwyd: 13 Ionawr 2026)<br><br>ac Atodiad VII: Rhestr termau (ipcc.ch) |
| Datblygu adeiledig a seilwaith (newid y ffordd y caiff y tir a’r môr eu defnyddio) | Ymhlith y pwysau hyn y mae adeiladu a phresenoldeb adeileddau a wnaed gan ddyn megis tai, ffatrïoedd, ffyrdd, seilwaith ynni, cyrsiau golff a pharciau carafannau. Gall y pwysau hyn arwain at golli cynefinoedd, a darniad/colled cysylltedd, colled priddoedd o radd uchel, allyriadau nwyon tŷ gwydr, perygl uwch o lifogydd, perygl uwch o lygredd (megis llwyth carthion cynyddol), defnydd o adnoddau naturiol, a selio pridd, ac maent yn cyfrannu at safleoedd tirlenwi a gwastraff.<br><br>Am amddiffynfeydd arfordirol ac addasiadau i ddyfrffyrdd, gweler ‘addasiadau ffisegol (dŵr croyw ac arfordirol)’. | Addaswyd o gofrestrau adnoddau naturiol Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 |

| Enw’r pwysau | Diffiniad | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Newidiadau yn nhymheredd yr aer (gan gynnwys tueddiadau glawiad) (newid hinsawdd) | Newidiadau hirdymor yn nhymheredd yr aer y gellir eu hadnabod (e.e. trwy ddefnyddio profion ystadegol). Dyma hefyd brif achos newidiadau mewn tueddiadau glawiad hirdymor. Felly, mae unrhyw effeithiau ar ecosystemau o ganlyniad i newidiadau mewn tueddiadau glawiad megis symudiad tymhorau wedi'u cynnwys o dan y pwysau hyn. | Addaswyd o dystiolaeth newid hinsawdd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025. |
| Newidiadau yn nwyster ac amlder digwyddiadau tywydd (newid hinsawdd) | Newidiadau yn amlder a dwyster glawiad, sychder, llifogydd mewndirol ac arfordirol, cyfnodau o dywydd poeth, stormydd, a digwyddiadau gwynt cryfion. Gall rhai o'r digwyddiadau tywydd hyn achosi dwyster ac amlder uwch o ddigwyddiadau cysylltiedig megis tanau gwyllt. | Addaswyd o dystiolaeth newid hinsawdd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025. |
| Newidiadau yn nhymheredd y dŵr (newid hinsawdd) | Newidiadau hirdymor mewn tymheredd dŵr y gellir eu hadnabod (e.e. trwy ddefnyddio profion ystadegol). Gall newidiadau yn nhymheredd y dŵr newid crynodiad yr ocsigen tawdd yn y dŵr, felly mae effeithiau ar ecosystemau oherwydd newidiadau mewn ocsigen tawdd o ganlyniad i newid mewn tymheredd wedi'u cynnwys o dan y pwysau hyn. Gall newidiadau yn nhymheredd dŵr hefyd newid ceryntau cefnforoedd, felly mae effeithiau ar ecosystemau oherwydd newidiadau mewn ceryntau cefnforoedd o ganlyniad i newid mewn tymheredd wedi'u cynnwys o dan y pwysau hyn. | Addaswyd o dystiolaeth newid hinsawdd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025. |

| **Enw’r pwysau** | **Diffiniad** | **Ffynhonnell** |
| --- | --- | --- |
| Draenio (defnydd uniongyrchol) | Tynnu dŵr daear neu ddŵr wyneb trwy ddisgyrchiant neu bwmpio. Gall draenio mawndiroedd gynnwys sianeli draenio mewnol o fewn mawndiroedd, draeniau ymylol lle mae mawndiroedd yn ffinio â thir amaethyddol, a ‘phalu ffosydd’ (ffosydd draenio a gloddiwyd i'r rhostiroedd, yn bennaf yn y 1960au a'r 1970au).<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am ddraenio ar dir ffermio sydd wedi'i amgáu, gweler ‘dwysáu amaethyddol’. I gael rhagor o wybodaeth am briffyrdd a draenio trefol, gweler ‘datblygu adeiledig a seilwaith’. | GMET (2025) *Thesawrws Amgylcheddol Amlieithog Cyffredinol*. Ar gael yn: https://www.eionet.europa.eu/gemet/en/themes/ (cyrchwyd: 13 Ionawr 2026)<br><br>ac wedi'i addasu o Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 Mynyddoedd, Gweunydd a Rhostiroedd rheoliadau adnoddau naturiol |
| Pysgodfeydd (defnydd uniongyrchol) | Mae pysgodfeydd yn cynnwys dal pysgod gwyllt neu bysgod cregyn. Gall pysgodfeydd effeithio ar lefelau’r poblogaethau o bysgod (stociau), poblogaethau o rywogaethau nad ydynt yn darged (sgil-ddalfa), ac effeithiau eraill ar gynefinoedd oherwydd gweithgareddau pysgodfeydd. Pysgodfeydd anghynaliadwy yw'r rhai sy'n achosi niwed i boblogaethau ac ecosystemau ar gyfradd gyflymach neu ar raddfa fwy nag y gall poblogaethau neu gynefinoedd naturiol adfer ohoni. | Addaswyd o'r Rhestr termau \| Ysgrifenyddiaeth IPBES a thrafodaethau â rhanddeiliaid |

| **Enw’r pwysau** | **Diffiniad** | **Ffynhonnell** |
|---|---|---|
| Rhywogaethau estron goresgynnol (gan gynnwys plâu a chlefydau) | Anifeiliaid, planhigion neu organebau eraill a gyflwynir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan bobl i leoedd y tu allan i'w cynefin naturiol, lle maent wedi ymsefydlu ac ymledu, ac yn creu effaith ar ecosystemau a rhywogaethau lleol (Roy ac eraill, 2023). Gall yr effeithiau hyn fod yn ‘gostus i’r economi a gallant hyd yn oed effeithio ar ein hiechyd a’n ffordd o fyw’ (Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron y DU, 2024). | Roy, H.E. ac eraill(2023) *IPBES Invasive Alien Species Assessment: Full report.* Bonn, yr Almaen: Ysgrifenyddiaeth IPBES. Ar gael yma: https://doi.org/10.5281/zenodo.10127795<br><br>Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr (2024) *Non-native species – tudalen we.* Ar gael yma: https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/. |
| Llygredd tir | Halogion ar y tir, neu y tu mewn iddo, a all niweidio iechyd pobl, organebau byw neu'r amgylchedd naturiol neu adeiledig. Gall yr halogion hyn newid priodweddau biolegol, thermol, cemegol, ffisegol neu ymbelydrol yr awyr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a mewn ffordd a all greu perygl. Gall y rhain gael eu cynhyrchu gan brosesau naturiol a gweithgareddau dynol. Gall llygredd tir fod yn ffynhonnell anuniongyrchol o lygredd dŵr. | Addaswyd o *Thesawrws Amgylcheddol Amlieithog Cyffredinol* GMET Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop (2025). Ar gael yn: https://www.eionet.europa.eu/gemet/en/themes/ (cyrchwyd: 13 Ionawr 2026). |

| Enw'r pwysau | Diffiniad | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Gweithgareddau mamaliaid mawr sy'n llysysorion (rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau) | Ymhlith y gweithgareddau mamaliaid mawr sy'n llysysorion y mae bwyta biomas, sathru, tomi, plicio rhisgl, bwydo'n wahaniaethol (bwyta rhai mathau o lystyfiant yn fwy nag eraill, a all effeithio ar gyfansoddiad ac adeiladwaith y cynefin). Ar lefelau amhriodol (gormod neu heb fod yn ddigonol), gall gweithgareddau llysysorion niweidio ecosystemau. Yng Nghymru, gall hyn gynnwys ceirw (brodorol ac estron), geifr gwyllt, baedd gwyllt fferal, a da byw sy'n tresmasu.<br><br>Ar gyfer gwiwerod llwyd, gweler 'rhywogaethau estron goresgynnol'. Ar gyfer cwningod, gweler 'plâu a chlefydau'. Ar gyfer or-bori, gweler 'gor-ddefnyddio adnoddau naturiol adnewyddadwy'. | Arweinwyr tîm a phwnc yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| Llygredd golau | Golau artiffisial sy'n newid patrymau naturiol o ran golau a thywyllwch mewn ecosystemau. Mae'n cynnwys golau tanbaid ac uniongyrchol, goleuo cynyddol cronig, ac amrywiadau dros dro, annisgwyl o ran goleuo. Ymhlith y ffynonellau o lygredd golau ecolegol y mae gwawl, adeiladau sydd wedi'u goleuo, goleuadau stryd, cychod pysgota, goleuadau diogelwch, a goleuadau ar gerbydau. Gall yr effeithiau niweidiol gael effaith ar deyrnas yr anifeiliaid, teyrnas y llysiau a dynolryw. Er bod llygredd golau yn niweidiol iawn i anifeiliaid nosol a mudol ac i anifeiliaid sy'n hedfan, mae hefyd yn cynhyrchu effeithiau niweidiol ar blanhigion. | Addaswyd o LONGCORE, T., RICH, C. 2004. Ecological light pollution. Front Ecol Environ 2004; 2[4]: 191-198 Light pollution \| UNEP Law and Environment Assistance Platform |

| **Enw’r pwysau** | **Diffiniad** | **Ffynhonnell** |
|---|---|---|
| Llygredd sŵn | Synau niweidiol neu ddiangen yn yr amgylchedd, y gellir eu mesur a'u cyfartaleddu dros gyfnod o amser mewn lleoliadau penodol. | GMET (2025) *Thesawrws Amgylcheddol Amlieithog Cyffredinol*. Ar gael yn: https://www.eionet.europa.eu/gemet/en/themes/ (cyrchwyd: 13 Ionawr 2026). |
| Defnydd aneffeithlon (defnydd uniongyrchol) | Defnyddio adnoddau naturiol yn aneffeithlon, gan gynnwys dŵr. Mae hyn yn rhoi mwy o alw ar wasanaethau ecosystemau heb ddarparu buddion o ran llesiant i fodau dynol, a gall gynyddu anfanteision megis costau ariannol. Mae'r pwysau hyn yn aml yn cyfuno â'r pwysau 'gor-ddefnyddio adnoddau naturiol adnewyddadwy'. | Tîm yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| Asideiddio cefnforoedd (newid hinsawdd) | Cynnydd mewn asidedd (pH is) dyfroedd morol, a achosir yn bennaf gan gynnydd yn lefel y carbon deuocsid a amsugnir o'r atmosffer. Mae $CO_2$ tawdd yn ffurfio asid gwan, felly wrth i weithgarwch dynol roi mwy o garbon i mewn i’r atmosffer, mae'r cefnfor yn dod yn fwy asidig. | Addaswyd o 5.4.2.3 Ocean Acidification by Carbon Dioxide – AR4 WGI Pennod 5: Observations: Oceanic Climate Change and Sea Level (ipcc.ch) |
| Gor-ddefnyddio adnoddau naturiol adnewyddadwy (defnydd uniongyrchol) | Defnyddio adnoddau naturiol adnewyddadwy ar gyfradd neu ddwyster sy'n uwch nag y gallant adnewyddu. Mae hyn yn cynnwys cynaeafu rhywogaethau o'r gwyllt ar gyfraddau cyflymach nag y gall poblogaethau naturiol wella. Mae gor-ddefnydd a defnydd aneffeithlon yn aml yn cyfuno i achosi pwysau ar adnoddau naturiol.<br><br>Ar gyfer gor-ddefnyddio pysgod a physgod cregyn, gweler y pwysau ‘pysgodfeydd’. | Yn seiliedig ar IPBES: overexploitation \| IPBES secretariat |

| Enw’r pwysau | Diffiniad | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Plâu a chlefydau (rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau) | Pla yw unrhyw organeb a all achosi niwed i organebau eraill neu seilwaith a adeiladwyd gan bobl, gan arwain at effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant pobl, iechyd ecosystemau, neu weithgarwch economaidd. Yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, mae plâu fel arfer yn cyfeirio at blâu pryfed, er bod cwningod wedi’u cynnwys yma (mae gwiwerod llwyd yn cyfrif fel rhywogaethau estron goresgynnol). Clefydau, yn y cyd-destun hwn, yw afiechydon unrhyw organeb a achosir gan haint gan ficro-organebau.<br><br>Ar gyfer ceirw, gweler ‘Gweithgareddau mamaliaid mawr sy’n llysysorion’. Ar gyfer gwiwerod llwyd, gweler ‘Rhywogaethau estron goresgynnol’. | Arweinwyr tîm a phwnc yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| Addasiadau ffisegol (dŵr croyw ac arfordirol) (newid y ffordd y caiff y tir a’r môr eu defnyddio) | Newidiadau a wneir i nodweddion ffisegol a hydrolegol naturiol afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol yw addasiadau ffisegol. Ymhlith y newidiadau hyn y mae gweithgareddau ac adeileddau artiffisial megis carthu, argloddiau amddiffyn rhag llifogydd, cronfeydd sy’n cyflenwi dŵr yfed, a llifddorau a choredau sydd yn eu tro yn addasu prosesau naturiol a nodweddion cynefinoedd ffisegol.<br><br>Ar gyfer draenio, gweler ‘draenio’. Ar gyfer adeileddau ar y tir, gweler ‘datblygu adeiledig a seilwaith’. | Addaswyd o: Physical Modifications - Sustainable Water Network (swanireland.ie) |

| Enw’r pwysau | Diffiniad | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Defnydd tir / dwyster rheoli is (newid y ffordd y caiff y tir a’r môr eu defnyddio) | Mae defnydd a rheolaeth ddynol o ecosystemau yng Nghymru wedi llunio eu cyflwr dros nifer o flynyddoedd.  Mae'r pwysau hyn yn disgrifio beth sy'n digwydd pan fydd dwyster defnydd neu reolaeth sefydledig yn lleihau neu pan fydd tir yn mynd yn segur.  Ymhlith yr enghreifftiau y mae sefyllfaoedd o dan-bori, lefelau is o brysgoedio, torri a/neu losgi. Mae hefyd yn cynnwys gostyngiad yn nifer y gweithgareddau o’r fath sy’n ymwneud â chadwraeth natur. Bydd hyn yn arwain at newid yng nghyflwr sefydledig a chyflwr ecosystemau.<br><br>Noder: mae gor-ddefnyddio adnoddau naturiol adnewyddadwy a gwasanaethau darparu (megis da byw a chnydau) wedi'u cynnwys o dan ‘bwysau’ o dan y ffactor ysgogol ‘defnydd uniongyrchol’. | Ysbrydolwyd tîm SoNaRR o Glossary \| Ysgrifenyddiaeth IPBES |
| Cynnydd yn lefel y môr (newid hinsawdd) | Cynnydd yn lefel dŵr y môr – gall hyn fod yn wahanol yn fyd-eang ac yn lleol. Fe'i hachosir gan ehangu thermol dŵr sy'n cynhesu, a mwy o iâ yn toddi ar y tir. | Tîm yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| Tynnu dŵr a'r galw amdano (defnydd uniongyrchol) | Tynnu dŵr yw'r broses o gymryd dŵr o ffynonellau naturiol (megis afonydd a ffynonellau tanddaearol) a chronfeydd dŵr. Diffinnir y galw am ddŵr fel cyfaint y dŵr a ddefnyddir. Nid yw'r meintiau hyn yr un peth, oherwydd bod rhywfaint o ddŵr fel arfer yn cael ei golli wrth ei drawsgludo oherwydd gollyngiadau a/neu anweddiad. | Arbenigwr pwnc Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 |

| Enw’r pwysau | Diffiniad | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Llygredd dŵr | Llygredd dŵr yw pan fo sylweddau, neu wres, yn cael eu cyflwyno i ddŵr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i weithgarwch dynol. Gall y rhain fod yn niweidiol i iechyd pobl ac ecosystemau dyfrol, arwain at ddifrod i eiddo, neu effeithio ar y ffordd y caiff dŵr ei ddefnyddio ar gyfer amwynderau. | Addaswyd o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (legislation.gov.uk) |

# Gwasanaethau a buddion ecosystemau ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025

Mae'r pedwar tabl canlynol yn cyflwyno terminoleg system cyfrifyddu economaidd amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig (SEEA EA), gan ymgorffori terminoleg Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU lle bo modd, ochr yn ochr â buddion enghreifftiol ar gyfer gwahanol fathau o fuddiolwyr.

## Tabl 7 Gwasanaethau darparu

| Gwasanaethau darparu (rhestr gyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau SEEA EA ac Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Enghreifftiau o'r buddion i bobl ac aelwydydd | Enghreifftiau o'r buddion i'r economi ehangach (busnesau a'r llywodraeth) |
|---|---|---|
| Gwasanaethau darparu cnydau<br><br>(Cnydau Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Cnydau wedi'u cynaeafu a chynhyrchion cysylltiedig (e.e. ffrwythau) ar gyfer cynhyrchwyr domestig | Cnydau wedi'u cynaeafu a chynhyrchion cysylltiedig (e.e. gwenith wedi'i gynaeafu, porthiant ar gyfer da byw, ffrwythau, blodau) ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol |
| Darparu biomas ar gyfer pori | Da byw a chynhyrchion da byw (e.e. cig, llaeth, wyau, gwlân) ar gyfer cynhyrchwyr domestig | Da byw a chynhyrchion da byw (e.e. cig, llaeth, wyau, gwlân) ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol |
| Gwasanaethau darparu dyframaeth | Pysgod, pysgod cregyn a phlanhigion dyfrol wedi'u cynaeafu o gyfleusterau dyframaeth ar gyfer cynhyrchwyr domestig | Pysgod, pysgod cregyn a phlanhigion dyfrol wedi'u cynaeafu ar gyfer y diwydiant dyframaeth |
| Gwasanaethau darparu pysgod gwyllt a gwasanaethau darparu biomas dyfrol naturiol eraill<br><br>(Pysgod Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Cynhyrchion dyfrol a gynaeafir gan aelwydydd i'w defnyddio eu hunain | Cynhyrchion dyfrol wedi'u cynaeafu ar gyfer y diwydiant pysgota |

| **Gwasanaethau darparu (rhestr gyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau SEEA EA ac Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU)** | **Enghreifftiau o'r buddion i bobl ac aelwydydd** | **Enghreifftiau o'r buddion i'r economi ehangach (busnesau a'r llywodraeth)** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau darparu coed (coed, llystyfiant sefydlog, mawn Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Pren a gynaeafir gan aelwydydd i'w ddefnyddio eu hunain | Pren a gynaeafir ar gyfer y diwydiant coedwigaeth |
| Anifeiliaid gwyllt, planhigion a gwasanaethau darparu biomas eraill (ac eithrio cynhyrchion dyfrol a phren) | Cynhyrchion a gynaeafir gan aelwydydd i'w defnyddio eu hunain | Cynhyrchion a gynaeafir gan fusnesau i'w gwerthu a'u prosesu |
| Ynni adnewyddadwy | Dibynnu llai ar farchnadoedd tanwydd ffosil, a mwy o annibyniaeth ynni, tra hefyd yn gwella iechyd y cyhoedd drwy leihau llygredd aer a lleihau allyriadau carbon er mwyn creu amgylchedd iachach | Dibynnu llai ar farchnadoedd tanwydd ffosil, a mwy o annibyniaeth ynni |
| Cyflenwad dŵr (cyflenwad dŵr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Dŵr i'w ddefnyddio'n uniongyrchol yn y cartref | Dŵr i'w ddefnyddio gan gyfleustodau cyflenwi dŵr, cynhyrchiant amaethyddol, diwydiant, a ffyrdd eraill o ddefnyddio dŵr gan y llywodraeth a busnesau |
| Gwasanaethau deunydd genetig (amrywiaeth o ran rhywogaethau gwyllt Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | | Datblygu cynhyrchion (bridiau newydd, synthesis genynnau ac ati) gan fusnesau amaethyddol, fferyllol a busnesau eraill |

## Tabl 8 Gwasanaethau rheoleiddio a chynnal

| Gwasanaethau rheoleiddio a chynnal (rhestr gyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau SEEA EA ac Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Enghreifftiau o’r buddion i bobl ac aelwydydd | Enghreifftiau o’r buddion i'r economi ehangach (busnesau a'r llywodraeth) |
|---|---|---|
| Gwasanaethau rheoleiddio hinsawdd byd-eang (rheoleiddio hinsawdd ar lefel fyd-eang Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Crynodiadau llai o nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer yn arwain at lai o effeithiau newid hinsawdd ar bobl | Crynodiadau llai o nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer yn arwain at lai o effeithiau newid hinsawdd ar fusnesau, yr economi a gweithgareddau'r llywodraeth |
| Gwasanaethau rheoleiddio hinsawdd lleol (micro a meso) (rheoleiddio’r hinsawdd ar y lefel leol Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Lliniaru tymereddau lleol, gan arwain at lai o straen gwres ar bobl | Lliniaru tymereddau lleol, gan arwain at gostau aerdymheru is i fusnesau ac adeiladau'r llywodraeth |
| Gwasanaethau hidlo aer (rheoleiddio ansawdd aer Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Crynodiadau llai o lygryddion aer a llai o niwed i iechyd pobl | Crynodiadau llai o lygryddion aer a llai o ddifrod i adeiladau.Llai o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd iechyd gwael cyflogeion |
| Gwasanaethau rheoleiddio ansawdd pridd (rheoleiddio ansawdd pridd Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Priddoedd ffrwythlon ar gyfer cynhyrchiant domestig (e.e. gerddi llysiau) ac atafaelu carbon | Priddoedd ffrwythlon ar gyfer cynhyrchiant amaethyddol, coedwriaethol a garddwriaethol |
| Gwasanaethau cadw pridd a gwaddod<br><br>(rheoleiddio peryglon Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Llai o risg i bobl o beryglon tirlithriadau | Osgoi gwaddodi dŵr a chostau trin ar gyfer cyfleustodau dŵr; llai o risg i seilwaith o beryglon tirlithriadau |

| **Gwasanaethau rheoleiddio a chynnal (rhestr gyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau SEEA EA ac Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU)** | **Enghreifftiau o'r buddion i bobl ac aelwydydd** | **Enghreifftiau o'r buddion i'r economi ehangach (busnesau a'r llywodraeth)** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau adfer gwastraff (dadansoddi a dadwenwyno gwastraff Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Costau llai i bobl oherwydd dulliau amgen o waredu gwastraff | Costau llai i fusnesau oherwydd dulliau amgen o waredu gwastraff |
| Gwasanaethau puro dŵr (rheoleiddio ansawdd dŵr) (rheoleiddio ansawdd dŵr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Llai o lygryddion mewn dŵr yn arwain at ddŵr glanach i bobl ei yfed a'i ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden | Costau trin dŵr is ar gyfer cwmnïau cyfleustodau dŵr a diwydiannau sy'n tynnu dŵr yn uniongyrchol o afonydd a'r môr |
| Gwasanaethau rheoleiddio llif dŵr<br><br>(rheoleiddio peryglon Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Llifoedd brig is yn ystod cyfnodau gwlyb, sy'n lleihau'r perygl o lifogydd i gartrefi | Llifoedd brig is yn ystod cyfnodau gwlyb, sy'n lleihau'r perygl o lifogydd i fusnesau; cost amddiffyn rhag llifogydd is i fusnesau a'r llywodraeth<br><br>Cynyddu llif dŵr yn ystod cyfnodau sych, gan leihau costau storio dŵr / cronfeydd dŵr a chynnal a chadw i gwmnïau cyfleustodau dŵr a chynyddu'r dŵr sydd ar gael ar gyfer amaethyddiaeth a defnyddiau eraill |
| Gwasanaethau amddiffyn yr arfordir (rheoleiddio peryglon Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Llai o berygl llifogydd i gartrefi mewn ardaloedd arfordirol | Llai o risg y bydd lifogydd yn difrodi seilwaith mewn ardaloedd arfordirol ac ar dir amaethyddol ac yn effeithio ar fusnesau eraill |

| Gwasanaethau rheoleiddio a chynnal (rhestr gyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau SEEA EA ac Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Enghreifftiau o’r buddion i bobl ac aelwydydd | Enghreifftiau o’r buddion i'r economi ehangach (busnesau a'r llywodraeth) |
|---|---|---|
| Gwasanaethau lliniaru stormydd<br><br>(rheoleiddio peryglon Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Llai o risg i bobl a difrod i dai o ganlyniad i stormydd nad ydynt yn gysylltiedig â dŵr (e.e. gwynt, tywod, ac ati) | Llai o risg o ddifrod i seilwaith ac eiddo busnes o ganlyniad i stormydd nad ydynt yn gysylltiedig â dŵr (e.e. gwynt, tywod, ac ati) |
| Gwasanaethau rheoli biolegol (rheoli plâu a chlefydau) (rheoleiddio clefydau a phlâu Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Lleihau peryglon i iechyd pobl o ganlyniad i blâu a chlefydau; cynhyrchu cnydau a blodau yn y cartref yn well | Llai o effeithiau oherwydd plâu a chlefydau ar gynhyrchiant amaethyddol / biomas a gweithgareddau dynol ac economaidd eraill<br><br>Costau llai ar ffurfiau amgen o reoli plâu a chlefydau, gan gynnwys plaladdwyr cemegol |
| Gwasanaethau peillio (peillio Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Cynnydd o ran ffrwythloni a chynhyrchu cnydau a blodau yn y cartref | Cynnydd o ran gwrteithio a chynhyrchiant cnydau amaethyddol a garddwriaeth fasnachol<br><br>Costau busnesau is ar gyfer ffurfiau amgen o beillio nad yw'n wyllt |
| Gwasanaethau gwanhau sŵn<br>(rheoleiddio sŵn Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Llai o darfu oherwydd sŵn i drigolion ac ymwelwyr. Ardaloedd tawelach, mwy llonydd a llai o effaith ar iechyd meddwl (ddim yn SEEA) | Llai o aflonyddwch sŵn i fusnesau |

| Gwasanaethau rheoleiddio a chynnal (rhestr gyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau SEEA EA ac Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Enghreifftiau o'r buddion i bobl ac aelwydydd | Enghreifftiau o'r buddion i'r economi ehangach (busnesau a'r llywodraeth) |
|---|---|---|
| Gwasanaethau cynnal a chadw poblogaeth a chynefinoedd meithrinfeydd | Cynnydd yn y cyflenwad o rywogaethau perthnasol ar gyfer darparu a gwasanaethau ecosystemau diwylliannol a ddefnyddir gan bobl | Cynnydd yn y cyflenwad o rywogaethau perthnasol sy'n bwysig yn economaidd ar gyfer darparu a gwasanaethau ecosystemau diwylliannol (e.e. stociau o bysgod morol a rhywogaethau eiconig ar gyfer twristiaeth) |

## Tabl 9 Gwasanaethau diwylliannol

| Gwasanaethau diwylliannol (rhestr gyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau SEEA EA ac Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Enghreifftiau o'r buddion i bobl ac aelwydydd | Enghreifftiau o'r buddion i'r economi ehangach (busnesau a'r llywodraeth) |
|---|---|---|
| Gwasanaethau ysbrydol, artistig a symbolaidd (crefyddol, ysbrydol, treftadaeth ddiwylliannol, cyfryngau a'r DU, ysbrydoledig Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Cyfraniadau ecosystemau at hunaniaeth ddiwylliannol ac ysbrydol ac fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth ar gyfer mynegiant (e.e. trwy gelf), gan arwain at fuddion o ran llesiant a mwynhad | Cyfleoedd i fusnesau o weithgareddau ysbrydol, diwylliannol a chelfyddydol ar sail natur |

| **Gwasanaethau diwylliannol (rhestr gyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau SEEA EA ac Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU)** | **Enghreifftiau o'r buddion i bobl ac aelwydydd** | **Enghreifftiau o'r buddion i'r economi ehangach (busnesau a'r llywodraeth)** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau amwynder<br><br>(tirwedd Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, esthetig Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, a lleoedd lleol Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Buddion synhwyraidd lleol y mae pobl yn eu mwynhau, yn enwedig y rhai gweledol; etholfreinio pobl a datblygu cymdogaethau ar eu cyfer | Cyfleoedd busnes sy'n gysylltiedig â buddion synhwyraidd lleol gwell a mwy pleserus, megis prisiau eiddo uwch, mwy o gwsmeriaid, ac ati |
| Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â hamdden (hamdden/twristiaeth Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Cyfleoedd i bobl fwynhau rhyngweithio â natur ar y safle a'r buddion cysylltiedig i iechyd corfforol a meddyliol | Cyfleoedd i fusnesau o dwristiaeth sy'n gysylltiedig â natur a gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored |
| Gwasanaethau addysg, gwyddonol ac ymchwil (addysg / gwybodaeth ecolegol Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU) | Datblygiad deallusol a hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth unigolion o ganlyniad i ryngweithio ag ecosystemau | Cyfleoedd i ysgolion, busnesau a sefydliadau ymchwil ddefnyddio'r amgylchedd ar gyfer rhyngweithio deallusol |

## Cyfeiriadau ychwanegol


GMET (2025) *General Multilingual Environmental Thesaurus*.